# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

# Addysg Dinasyddiaeth Ewropeaidd a Byd-eang

Mawrth 2007

# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol
## Aelodau



Sandy Mewies
(Cadeirydd)
Delyn



Nick Bourne
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Rosemary Butler
Gorllewin Casnewydd



Jeff Cuthbert
Caerffili



Mike German
Dwyrain De Cymru



Christine Gwyther
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro



Ieuan Wyn Jones
Ynys Môn



Jonathan Morgan
Canol De Cymru



Rhodri Morgan
(Prif Weinidog Cymru)
Gorllewin Caerdydd



Rhodri Glyn Thomas
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr

**Ysgrifenyddiaeth**

| | |
|---|---|
| Chris Reading | Clerc y Pwyllgor |
| Sarah Bartlett | Dirprwy Glerc |
| Abigail Phillips | Cymorth Tîm |

## Rhagair y Cadeirydd

Mae'n bwysig cynnwys pobl ifanc yn y broses ddemocrataidd, er mwyn cynnal a datblygu cymdeithas sefydlog. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld dirywiad mawr yn nifer y bobl sy'n pleidleisio mewn etholiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, yn enwedig ymhlith pobl ifanc. Yn etholiadau 2003 i'r Cynulliad Cenedlaethol, dim ond 16% o bobl o dan 25 oed a bleidleisiodd a phenderfynodd bron 80% o'r pleidleiswyr cofrestredig rhwng 18 a 34 oed beidio â phleidleisio. Mae'r ystadegau hyn yn peri pryder.

Penderfynodd y pwyllgor gynnal yr adolygiad hwn, wrth lunio ei ymateb i Bapur Gwyn y Comisiwn Ewropeaidd ar Bolisi Cyfathrebu Ewropeaidd. Yr allwedd i gynnwys pobl ifanc yn y broses ddemocrataidd yw darparu addysg effeithiol ac ysgogol ar ddinasyddiaeth mewn ysgolion a cholegau. Dylai gynnwys gwybodaeth am sefydliadau amrywiol yr Undeb Ewropeaidd a'r byd tu hwnt. Ond mae angen gwneud mwy na rhannu gwybodaeth; mae'r gallu i bwyso a mesur tystiolaeth, llunio barn a'i mynegi - meddwl yn feirniadol - yr un mor bwysig. Dylid annog pobl ifanc i ystyried sut mae materion Ewropeaidd a byd-eang yn effeithio ar eu bywydau bob dydd, a sut y gallai eu cyfranogiad fel dinasyddion gweithgar ddylanwadu ar welliannau.

Mae'r adolygiad hwn yn ategu'r broses o graffu ar Drefniadau Etholiadol yng Nghymru, a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.

Hoffwn ddiolch i'r unigolion a'r sefydliadau hynny a gyflwynodd dystiolaeth, naill ai'n ysgrifenedig neu'n bersonol. Hoffwn ddiolch i aelodau'r pwyllgor am eu gwaith caled a hefyd i'n hysgrifenyddiaeth am helpu i gynnal yr ymchwiliad hwn.

Rydym wedi gwneud nifer o argymhellion gyda'r nod o wella'r broses o ddarparu addysg dinasyddiaeth Ewropeaidd a byd-eang mewn ysgolion a cholegau. Caiff yr adroddiad hwn ei gyflwyno i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau - fel ymateb ffurfiol i'r adolygiad presennol o'r cwricwlwm ysgol yng Nghymru. Caiff yr adroddiad ei gyflwyno hefyd i'r Prif Weinidog, fel y Gweinidog dros Faterion Ewropeaidd ac Allanol; a bydd yn cael ei gynnwys yn ein hadroddiad canlyniadol ar gyfer camau gweithredu pellach posibl gan ein pwyllgor olynol, ar ôl etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai.



**Sandy Mewies AC**

**Cadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol**

## Cynnwys


| Adran | | Rhif y Dudalen |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | **1** |
| 2 | Crynodeb o'r Dystiolaeth | **3** |
| 3 | Casgliadau | **23** |
| 4 | Argymhellion | **27** |
| | | |
| **Atodiadau** | | |
| 1 | Rhestr o Bapurau'r Pwyllgor | **30** |
| 2 | Y Sefydliadau yr Ymgynghorwyd â Hwy | **31** |
| 3 | Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad | **34** |
| 4 | Ymateb i Bapur Gwyn y Comisiwn Ewropeaidd ar Bolisi Cyfathrebu Ewropeaidd | **35** |
| 5 | Rhestr Dermau | **37** |

# 1. Cyflwyniad

## Cefndir

1.1 Mae cyfathrebu'n effeithiol â'r dinasyddion yn flaenoriaeth i'r Comisiwn Ewropeaidd (CE) bresennol. Ar ôl i bleidleiswyr Ffrainc a'r Iseldiroedd wrthod Cytuniad Cyfansoddiadol yr Undeb Ewropeaidd yn 2005, daeth hyd yn oed yn amlycach bod angen dull newydd o gyfathrebu a gwella dealltwriaeth dinasyddion o'r UE. Gan gychwyn ar sail y bwlch canfyddedig rhwng yr Undeb Ewropeaidd a'i ddinasyddion, lluniodd y CE gynllun gweithredu yn gyntaf gyda rhestr o fesurau penodol i wella'r ffordd y mae'n cyfathrebu â'i ddinasyddion. Yna, fel cyfraniad at y cyfnod dilynol o fyfyrio ar y Cytuniad Cyfansoddiadol, lansiodd Gynllun-D ar gyfer democratiaeth, deialog a dadl, y bwriadwyd iddo gynnwys dinasyddion mewn trafodaeth eang ei chwmpas ar yr Undeb Ewropeaidd - ei ddiben, ei gyfeiriad a'i amcanion.

1.2 Fodd bynnag, dim ond gyda chyfranogiad holl sefydliadau a chyrff allweddol eraill yr UE;  ynghyd â'r awdurdodau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn yr Aelod Wladwriaethau; pleidiau gwleidyddol Ewrop; a chymdeithas sifil, y byddai'r mentrau hyn yn llwyddo. Felly, penderfynodd y CE gyhoeddi Papur Gwyn, i ymgynghori arno, ar Bolisi Cyfathrebu Ewropeaidd.

1.3 Cyhoeddwyd y Papur Gwyn ym mis Chwefror 2006, gan wahodd sylwadau erbyn dechrau mis Gorffennaf. Wrth lunio ei ymateb i'r ymgynghoriad, cytunodd y Pwyllgor â'r Comisiwn Ewropeaidd fod addysg dinasyddiaeth mewn ysgolion yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gynnwys dinasyddion a gwella eu dealltwriaeth o brosesau gwleidyddol. Felly, penderfynwyd adolygu dinasyddiaeth Ewropeaidd a byd-eang, gyda'r cylch gorchwyl canlynol:

## Cylch Gorchwyl

1.4 Ystyried sut yr ymdrinnir ag addysg dinasyddiaeth Ewropeaidd a byd-eang yng Nghymru ac Ewrop.

1.5 Yn arbennig:

- Ystyried y trefniadau presennol ar gyfer addysgu dinasyddiaeth Ewropeaidd a byd-eang mewn ysgolion yng Nghymru ac Ewrop.
- Ffyrdd o atgyfnerthu'r addysgu hwn a'i wneud yn fwy effeithiol.
- Gwneud argymhellion ar gyfer polisi yn y maes hwn.

## Proses

1.6 Gan fod yr amser a oedd ar gael i gynnal yr adolygiad hwn yn brin, ni phenododd y Pwyllgor gynghorydd arbenigol ond dibynnodd ar gymorth ei ysgrifenyddiaeth a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau hefyd.

1.7 Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad ysgrifenedig rhwng mis Medi 2006 a mis Ionawr 2007. Yn ogystal, gwahoddwyd sefydliadau amrywiol i wneud cyflwyniadau llafar a chymryd rhan mewn trafodaethau yn ystod cyfarfodydd y pwyllgor rhwng mis Mai a mis Hydref 2006.

1.8 Ceir rhestr o'r papurau a roddwyd i'r Pwyllgor yn Atodiad 1. Rhestrir y sefydliadau yr ymgynghorwyd â hwy yn Atodiad 2 a cheir crynodeb o'u hymatebion yn Atodiad 3. Cynhwysir ymateb y Pwyllgor i Bapur Gwyn y Comisiwn Ewropeaidd yn Atodiad 4. Ceir rhestr dermau yn Atodiad 5.

1.9 Mae holl bapurau a chofnodion y cyfarfodydd ar gael ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru – www.cymru.gov.uk

## 2. Crynodeb o'r Dystiolaeth

### Cwricwlwm Ysgol

2.1 Y man cychwyn oedd papur, a baratowyd gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau, ar addysg dinasyddiaeth Ewropeaidd yng Nghymru. Roedd yn crynhoi elfennau allweddol papur gwyn y Comisiwn Ewropeaidd ar bolisi cyfathrebu ac yna'n amlinellu'r ffordd yr ymgorfforwyd addysg dinasyddiaeth yn y cwricwlwm ysgol yng Nghymru.

2.2 Yng Nghymru, mae dinasyddiaeth yn rhan o'r ddarpariaeth statudol ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh). Ar hyn o bryd, darperir addysg dinasyddiaeth drwy gyfrwng Cyfnod Allweddol 1-4 (5-16 oed) y fframwaith ABCh yng Nghymru. Er i ABCh fod yn statudol yng Nghymru ers mis Medi 2003, mae'r fframwaith yn anstatudol. Mae'n cwmpasu agweddau a gwerthoedd, sgiliau a gwybodaeth a dealltwriaeth ac mae iddi ddeg agwedd, gan gynnwys materion cymdeithasol a chymunedol.

2.3 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (y Llywodraeth) wedi dynodi ABCh fel y brif ffordd o ddarparu addysg dinasyddiaeth. Gellir ei darparu mewn amryw ffyrdd; gan gynnwys, sesiynau ABCh a gynlluniwyd, prosiectau a chyrsiau; pynciau presennol; strategaethau addysgu a dysgu rhyngweithiol ac arbrofol; profiadau allgyrsiol; a chynnwys disgyblion yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae 'Cymru, Ewrop a'r Byd' yn rhan o'r craidd dysgu ar gyfer ‘Llwybrau Dysgu 14-19’, a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

2.4 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi'n cynnal adolygiad cynhwysfawr o orchmynion pwnc y cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru ar hyn o bryd. Cynhelir nifer o ymgynghoriadau cyfochrog ar y pynciau amrywiol o fewn y cwricwlwm; gan gynnwys ymgynghoriad ar fframwaith ABCh diwygiedig. Bwriedir i'r adroddiad hwn gael ei gyflwyno fel ymateb.

2.5 ABCh yw'r broses o helpu dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt i fyw bywydau hyderus, iach ac annibynnol. Caiff dysgwyr eu helpu hefyd i egluro eu gwerthoedd a'u hagweddau personol mewn perthynas â rhai pobl eraill a chymdeithas yn gyffredinol. Bydd y fframwaith ABCh diwygiedig ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 7 a 19 oed ac mae'n nodi'r cyfleoedd dysgu y dylai ysgol neu goleg eu darparu i gefnogi a hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol a lles ei ddysgwyr.

2.6 Diwygiwyd y fframwaith ABCh ac fe'i diweddarwyd i adlewyrchu continwwm datblygiad personol a chymdeithasol o'r Cyfnod Sylfaen i Lwybrau Dysgu 14 i 19. Mae'r fframwaith diwygiedig yn dilyn patrwm pynciau'r cwricwlwm cenedlaethol drwy rannu gofynion yn sgiliau ac ystod oedran ar gyfer pob cyfnod allweddol. Rhoddwyd mwy o sylw i ddatblygu sgiliau a dosbarthwyd canlyniadau dysgu sgiliau o dan benawdau cyffredin o'r Fframwaith Sgiliau a'r sgiliau allweddol ehangach.

2.7 Ar ôl asesu'r ymatebion i'r ymgynghoriad, caiff gorchmynion newydd y cwricwlwm cenedlaethol eu cyflwyno ym mis Medi 2008.

### Bagloriaeth Cymru

2.8 Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad ar y pwnc hwn gan Gyd-bwyllgor Addysg Cymru. Dysgom fod dwy o'r pedair prif elfen graidd ym Magloriaeth Cymru - 'Cymru, Ewrop a'r

Byd' ac ‘Addysg Bersonol a Chymdeithasol’ - yn berthnasol i'n hadolygiad. Yn Cymru, Ewrop a'r Byd, mae myfyrwyr yn dysgu am faterion gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Yna, maent yn trafod y materion hyn, nid dim ond o safbwynt Cymru, ond hefyd o safbwynt ehangach. O ganlyniad i hynny, maent yn dysgu llunio eu barn eu hunain ar y berthynas rhwng Cymru ac Ewrop; a hefyd rhwng Ewrop a gweddill y byd.

2.9 Yn ABCh, mae myfyrwyr yn dysgu am ddinasyddiaeth a chynaliadwyedd, ymhlith pethau eraill. Unwaith eto, wrth edrych ar y materion hyn, mae'n rhaid iddynt ystyried y darlun ehangach. Mae'n ofynnol iddynt gynnal ymchwiliad, sy'n cynnwys ymchwil ac astudiaethau preifat ar y pwnc o'u dewis; rhoddwyd yr enghreifftiau canlynol i ni: *'Sut y cawn fwy o bobl ifanc i bleidleisio yn etholiadau Ewrop?'. 'Sut y gallwn gefnogi'r ieithoedd Celtaidd yn Ewrop?'* a *'Sut mae bod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd yn effeithio ar Gymru o gymharu â'i effaith ar yr Eidal?'*

2.10 Un o ofynion eraill Bagloriaeth Cymru yw bod yn rhaid i fyfyrwyr wneud profiad gwaith. Clywsom yn uniongyrchol gan fyfyriwr o Goleg Meirion-Dwyfor a oedd wedi gwneud profiad gwaith, fel cynorthwyydd i Jill Evans ASE, ym Mrwsel. Yn ei geiriau ei hun; *"Drwy wneud y fagloriaeth, rwyf wedi dysgu llawer mwy am Ewrop, gwleidyddiaeth a'r byd nag y byddwn wedi'i wneud pe bawn ond wedi gwneud Safon Uwch. Mae'n dangos sut mae pethau'n effeithio arnom ni yng Nghymru lawer mwy, drwy gymharu'r ffordd o wneud pethau yng Nghymru â'r ffordd o wneud pethau yn Ewrop ac ati. Dysgais lawer iawn."*

2.11 Ar hyn o bryd, nifer fach o fyfyrwyr sy'n gwneud Bagloriaeth Cymru. Fodd bynnag, o fis Medi 2007, caiff ei chyflwyno ledled Cymru; i'r rheini rhwng 14 ac 16 oed i ddechrau. O fis Medi 2006, bydd naw ysgol a choleg yn treialu Bagloriaeth Cymru o 14 oed, yng nghyfnod allweddol 4.

**Arferion eraill yn yr Undeb Ewropeaidd**

2.12 Cawsom bapur yn llawn gwybodaeth gan Bennaeth Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru, yn crynhoi'r dull o weithredu a fabwysiedir gan aelod wladwriaethau eraill yr Undeb Ewropeaidd ac, yn ystod y cyfarfod, rhoddwyd enghreifftiau o'r math o ddeunyddiau a ddefnyddir i addysgu plant ysgol ar ddinasyddiaeth Ewropeaidd. Roedd llawer o'r rhain yn defnyddio darluniau a chartwnau yn llawn dychymyg i gyfleu ffeithiau allweddol am drefniadaeth, gweithrediad a hanes yr Undeb Ewropeaidd.

2.13 Ymdriniodd y papur â'r cwestiwn o sut y caiff Dinasyddiaeth Ewropeaidd ei haddysgu mewn gwledydd eraill a pha ddeunydd addysgu a gynhyrchwyd i'w hategu. Un enghraifft hynod ddiddorol a ddefnyddiwyd gan Swyddfa'r CE oedd Iwerddon. Mae Cynrychiolaeth y CE yn Iwerddon wedi cynhyrchu llawlyfr i ddisgyblion ysgolion cynradd o'r enw 'Your Passport to Europe', yn Saesneg a Gwyddeleg. Mae'r rhain yn boblogaidd iawn gydag athrawon.

2.14 Cyfeiriwyd y Pwyllgor at astudiaeth gymharol o addysg dinasyddiaeth mewn ysgol yn Ewrop a gynhaliwyd gan Eurydice, sef y rhwydwaith gwybodaeth am addysg yn Ewrop ac fe'i cwblhawyd ym mis Mai 2005. Roedd yr astudiaeth hon, a oedd yn cwmpasu 30 o

wledydd Ewropeaidd, hefyd yn cynnwys pennod ar y ffordd y mae gwahanol wledydd yn ymdrin â dimensiwn Ewropeaidd addysg dinasyddiaeth.

2.15 Daw adroddiad Eurydice i'r casgliad mai nod dimensiwn Ewropeaidd addysg dinasyddiaeth, yn y cwricwlwm, yw darparu gwybodaeth ffurfiol (am brif gamau proses integreiddio Ewropeaidd, hawliau a dyletswyddau dinasyddion a swyddogaethau sefydliadau Ewropeaidd), a datblygu agweddau a gwerthoedd dinasyddion y dyfodol (dysgu gallu uniaethu â materion Ewropeaidd a rhyngwladol pwysig a hyrwyddo goddefgarwch drwy amrywiaeth diwylliannol-gymdeithasol, ac ati).

*2.16 Mae dimensiwn Ewropeaidd addysg dinasyddiaeth fel arfer ar ffurf hyrwyddo ymdeimlad o berthyn i Ewrop ac o gyfranogi. Mae Cymuned Ffleminaidd Gwlad Belg, yr Iseldiroedd, Sweden, y Deyrnas Unedig a Norwy yn cyfeirio at y dimensiwn rhyngwladol neu fyd-eang, yn hytrach na dimensiwn Ewropeaidd yn benodol, er bod cynnwys penodol rhai pynciau yn gallu cynnwys cyfeiriadau at Ewrop.*[1]

2.17 Hoffai'r Pwyllgor annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried yr enghreifftiau o arfer da a nodwyd yn yr adroddiad gan Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru ac yn adroddiad Eurydice; e.e. enghraifft Iwerddon a allai gael ei defnyddio'n haws yng Nghymru.

**Rôl Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru**

2.18 Er bod y Comisiwn Ewropeaidd a sefydliadau eraill yr UE yn ceisio helpu Aelod Wladwriaethau gyda'u hymdrechion drwy ddarparu gwybodaeth a deunydd hyrwyddo, yn ei dystiolaeth pwysleisiodd cynrychiolydd y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru mai Aelod Wladwriaethau'r UE sy'n gyfrifol am y cwricwlwm addysg ac am ddarparu deunyddiau addysgu.

2.19 Serch hynny, mae rhai o Gynrychiolaethau'r CE mewn Aelod Wladwriaethau penodol yn yr UE wedi cynhyrchu deunyddiau addysgu eu hunain, neu drwy weithio'n agos gydag awdurdodau cenedlaethol. Mae gwasanaethau canolog y Comisiwn Ewropeaidd yn cynhyrchu ystod eang o lyfrynnau gwybodaeth y gellid eu defnyddio i hysbysu pobl ifanc, o bob oed, am yr Undeb Ewropeaidd a'i ddiben. Fodd bynnag, gwybodaeth ffeithiol yw'r deunydd hwn yn bennaf ac nid yw'n gyfystyr â deunydd addysgu fel y cyfryw. Mae hwn yn wahaniaeth pwysig i'w nodi ond mewn rhai gwledydd fe'u defnyddir i ategu'r deunyddiau addysgu a ddarperir yn genedlaethol.

2.20 Ni all Swyddfa'r CE yng Nghymru ddosbarthu deunyddiau na ofynnir amdanynt yn uniongyrchol i ysgolion yn y DU, oherwydd ystyrir bod sefydliadau'r UE yn sefydliadau gwleidyddol neu'n sefydliadau a wleidyddolwyd. Eglurodd cynrychiolydd y CE, *"Mae'n rhaid i ni gydweithio â strategaethau cenedlaethol ac awdurdodau cenedlaethol a fyddai'n barod i gynnwys y deunyddiau hyn ym mha beth bynnag a sefydlwyd."*

2.21 Ar y cyfan, dim ond yn ieithoedd swyddogol yr UE y mae deunyddiau gwybodaeth a gynhyrchir gan yr UE ar gael; nad ydynt yn cynnwys yr iaith Gymraeg. Dros y pum

---

[1] Eurydice, *Citizenship Education at School in Europe 2005,* t52

mlynedd diwethaf, cyhoeddwyd tri chyhoeddiad UE yn Gymraeg a Saesneg, yn benodol gan Swyddfa'r CE yng Nghymru. Cydnabuwyd bod y nifer hon yn eithaf isel; fodd bynnag, yn ystod 2006-2007 mae Swyddfa'r CE yng Nghymru wrthi'n paratoi fersiynau Cymraeg o'i tri chyhoeddiad Saesneg mwyaf poblogaidd a allai hefyd gael eu defnyddio at ddibenion addysgol o bosibl. Mae Swyddfa'r CE yng Nghymru yn gobeithio gallu darparu nifer o deitlau newydd yn Gymraeg bob blwyddyn.

2.22 Nododd y Prif Weinidog, o ran deunyddiau addysgu ystafell ddosbarth Cymraeg a dwyieithog, fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi'n archwilio sut y gallai'r rhaglen gaffael gefnogi'r gwaith o ddatblygu adnodd addysgu Ewropeaidd o ansawdd uchel.

2.23 Yng Nghymru, mae'r Comisiwn Ewropeaidd bellach yn ariannu Canolfannau Uniongyrchol Ewrop (gweler isod) sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd yn barhaus.

2.24 Mae'n hanfodol bod dinasyddion ifanc yn gallu cael gwybodaeth o ansawdd da yn hawdd, mewn amryw fformatau, i lywio ac ysgogi trafodaeth. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn ymgynghoriad â'r Comisiwn Ewropeaidd, gomisiynu deunydd dwyieithog tebyg i'w ddefnyddio mewn ysgolion.

2.25 Credwn hefyd y dylai'r Comisiwn Ewropeaidd ystyried rhoi mwy o arian i'w swyddfeydd cynrychioliadol i gyfieithu cyhoeddiadau i ieithoedd lleol swyddogol, megis Cymraeg, er nad ydynt yn ieithoedd UE swyddogol. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd ystyried p'un a allai gefnogi Cynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru i ddarparu mwy o gyhoeddiadau am yr UE yn Gymraeg ac mewn ieithoedd eraill o bosibl, sy'n berthnasol i gymunedau lleol arbennig.

**Meddwl yn Feirniadol**

2.26 Clywsom gyflwyniad llawn gwybodaeth gan y Cyngor Addysg mewn Dinasyddiaeth Byd (CEWC Cymru). Dywedodd ei bod yn bwysig, wrth ystyried sut i addysgu pobl ifanc am Ewrop, eu bod yn deall ein rhesymau dros wneud hynny. A ydym am i bobl ifanc ddod i orsafoedd pleidleisio a phleidleisio bob pum mlynedd, neu a ydym am iddynt ddatblygu ymdeimlad dyfnach o ddinasyddiaeth Ewropeaidd? A ydym am i bobl ifanc dybio bod yr Undeb Ewropeaidd yn "beth da", neu ei werthuso'n feirniadol? Nid yw pobl yn pleidleisio mewn etholiadau am fod eu llywodraeth yn dweud wrthynt i wneud hynny, ond oherwydd eu bod yn credu y gwnaiff wahaniaeth yn eu bywydau; felly mae'n bwysig deall sut mae'r UE yn effeithio arnom; mewn meysydd mor amrywiol â chyflogaeth, masnach, amaethyddiaeth a chyfiawnder.

2.27 Rhybuddiodd CEWC Cymru rhag rhoi llwyth o ystadegau am yr Undeb Ewropeaidd i fyfyrwyr yn unig. Mae'r UE yn sefydliad mawr; ac mae ei gylch gwaith a'i weithrediadau yn ddirgelwch i lawer o athrawon, heb sôn am eu myfyrwyr. Cytunwn fod angen i addysgu adlewyrchu'r rhesymau dros addysgu pobl am Ewrop yn y lle cyntaf. Nid yw deall yr UE o reidrwydd yn golygu deall gweithrediadau manwl y polisi amaethyddol cyffredin; mae'n golygu deall effaith ddyddiol y pethau hynny ar ein bywydau ac ar faterion pwysig y dydd. Er enghraifft, cyfeiriwyd at ddiddymu'r gwaharddiad Ewropeaidd ar allforio cig eidion o'r DU ym mis Mai 2006 a nodwyd y gallai hyn fod yn fan cychwyn defnyddiol i athrawon gychwyn trafodaeth ar sut mae penderfyniadau'r UE yn effeithio ar fywydau ffermwyr yng Nghymru.

2.28 Credwn, er mwyn grymuso myfyrwyr i gyflawni newidiadau, ei bod yn angenrheidiol datblygu'r sgiliau sylfaenol; sut i gymryd rhan mewn cyfarfod, sut i fynegi barn a sut i feddwl yn feirniadol. Mae hefyd yn bwysig cynorthwyo disgyblion i gymryd eu camau cyntaf tuag at leisio barn, a allai fod drwy gelf neu ddrama yn hytrach na'r dulliau traddodiadol o lunio araith neu ysgrifennu llythyr. Yn ogystal, cytunwn y dylid sicrhau cydbwysedd gwell yn y cwricwlwm ysgol rhwng meithrin sgiliau perthnasol a meithrin gwybodaeth. Ar hyn o bryd, credwn fod gormod o bwyslais ar yr olaf.

2.29 Yn ein barn ni, dylai deunyddiau addysgu o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar faterion Ewropeaidd, fod ar gael yn fwy cyffredinol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.

2.30 Dywedodd CEWC Cymru wrthym ei fod wedi bod yn gweithio ar brosiect o'r enw athroniaeth i blant. Mae hwn yn ddull o geisio cael pobl ifanc i feddwl yn athronyddol mewn cylch yn yr ystafell ddosbarth. Ei nod yw helpu athrawon i addysgu mewn ffordd wahanol, i dderbyn nad oes angen amcan dysgu penodol ar bob gwers, ond y gellir weithiau gael gwersi a sgyrsiau sy'n werthfawr am eu bod yn benagored heb gasgliad cadarn; i annog mwy o waith ymchwil, trafod a meddwl yn feirniadol. Dywedwyd wrthym fod y dull hwn o weithredu yn fwy llwyddiannus mewn ysgolion cynradd, oherwydd y cysylltiadau agosach rhwng athrawon dosbarth a disgyblion.

2.31 Mae CEWC-Cymru yn trefnu nifer o weithgareddau, yr amlinellir rhai ohonynt isod, i roi cyfle i bobl ifanc ddysgu am yr Undeb Ewropeaidd a datblygu'r sgiliau angenrheidiol i werthuso materion a llunio barn arnynt. Croesawn y mentrau hyn ac anogwn eich pobl i gymryd rhan ynddynt.

2.32 **Senedd Ieuenctid Ewrop:** Mae hon yn fenter ar draws yr UE i annog pobl ifanc i drafod materion Ewropeaidd gwirioneddol a chyfoes. Mae CEWC-Cymru yn trefnu Fforymau Senedd Ieuenctid Ewrop yn y De a'r Gogledd, gan wahodd pob ysgol uwchradd a choleg addysg bellach yng Nghymru i gymryd rhan. Ymhlith y materion a drafodwyd yn ddiweddar mae ailddatblygu trefol, terfysgaeth, a masnach ag economïau 'teigr' Asiaidd. Mae digwyddiad De Cymru, a gynhelir yn hen siambr y Cynulliad Cenedlaethol, yn boblogaidd iawn.

2.33 **Adnoddau 'Citaware':** Mae CEWC Cymru, ar y cyd â'i riant gorff, Canolfan Gymreig Materion Rhyngwladol, a'r papur newydd ar-lein 'Europa World', wedi cynhyrchu taflenni gweithgarwch i athrawon sydd am gyflwyno'r UE i fyfyrwyr; fe'u cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2006. Mae gan bob taflen thema gyffredinol (er enghraifft, rôl yr Undeb Ewropeaidd mewn hawliau dynol a chrefydd), a ddosberthir yn bynciau penodol sydd o ddiddordeb i bobl ifanc, megis artaith a'r defnydd o symbolau crefyddol. Eu nod yw osgoi jargon a manylion technegol am weithrediadau'r UE; yn hytrach, canolbwyntir ar drafod egwyddorion pob mater, a gweithgareddau a gynlluniwyd i amlygu safbwyntiau gwahanol.

2.34 **Gweithdai ystafell ddosbarth ar faterion Ewropeaidd:** Yn sgîl cyflwyno Bagloriaeth Cymru, dywedodd CEWC Cymru wrthym ei fod yn cael ei wahodd fwyfwy i ymweld ag ysgolion a chynnal sesiynau'n ymwneud â'r thema 'Cymru, Ewrop a'r Byd'. Er mwyn ymgysylltu â myfyrwyr, mae'n ceisio cysylltu cynnwys y gweithdai â'u bywydau - er enghraifft, drwy nodi aelod wladwriaethau'r UE yn ôl ffigyrau diwylliannol neu ffigyrau o fyd chwaraeon, neu drwy ofyn iddynt ystyried sut y byddent yn gweithredu fel dinasyddion Ewropeaidd unigol ar faterion sy'n effeithio arnynt.

2.35 O ystyried yr amser prin a oedd ar gael i wneud y gwaith hwn, nid oedd yn bosibl i ni gael gwybodaeth fanwl am y graddau y cyflawnir y mathau hyn o weithgareddau ledled Cymru. Fodd bynnag, credwn y dylai'r cyfleoedd hyn fod ar gael i bob disgybl, waeth beth fo'i gefndir, a'i fod yn cael yr un anogaeth i gymryd rhan mewn mentrau dinasyddiaeth. Mae hyn yn ategu argymhelliad adolygiad polisi'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (gweler isod).

**Rôl y Cyfryngau**

2.36 Cytunwyd bod y sylw a gaiff materion Ewropeaidd gan y cyfryngau yn negyddol ar y cyfan; ac y gallai hyn ddylanwadu ar safbwyntiau pobl ifanc. Fodd bynnag, dywedodd CEWC Cymru wrthym y gallai athrawon ddefnyddio erthyglau negyddol mewn papurau newydd, cylchgronau, ar y teledu neu'r rhyngrwyd, i gychwyn trafodaeth yn yr ystafell ddosbarth ar yr hyn sy'n wir am Ewrop drwy ddadansoddi a, lle bo angen, feirniadu'r cyfryngau. Gwnaethom ddysgu bod y dull hwn wedi'i ddefnyddio, er enghraifft, i addysgu pobl ifanc am ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

2.37 Er mwyn cael rhywfaint o wybodaeth ffeithiol, comisiynodd y Pwyllgor bapur gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau ar y sylw a gafodd faterion Ewropeaidd yn y wasg yng Nghymru, dros gyfnod o bum mis rhwng mis Ionawr a mis Mai 2006. Crynhoir y canfyddiadau isod, gydag enghreifftiau darluniadol.

2.38 O blith 289 o eitemau newyddion ar yr UE yn ystod y cyfnod hwn:

- canolbwyntiodd 19% (55 o eitemau) ar ddatblygiad ffliw adar ar draws yr UE.
- soniodd 13% (36 o eitemau) am brosiectau penodol a gefnogwyd gan y Cronfeydd Strwythurol neu gynlluniau ariannu amaethyddol.
- canolbwyntiodd 9% (27 o eitemau) ar gysylltiadau allanol yr Undeb Ewropeaidd.
- soniodd wyth eitem am Gronfeydd Strwythurol ôl-2006, y canolbwyntiodd dwy ohonynt ar arian cyfatebol.
- trafododd un erthygl effaith y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau.
- cyfeiriodd un erthygl at roi cymorth gwladwriaethol i Airbus.

2.39 Roedd yr adroddiadau ar faterion yr UE yn gymharol gywir o ran ffeithiau, ac yn gadarnhaol lle y bo'n briodol, gydag ond dwy neu dair erthygl yn beirniadu'r UE yn uniongyrchol.

2.40 Fodd bynnag, ni roddwyd sylw i'r materion canlynol, a drafodwyd yn eang ar lefel yr UE yn ystod y cyfnod hwn:

- Ymgynghoriadau ar y map o Gymorth Rhanbarthol.
- Agendâu Lisbon a Gothenburg.
- Cynnydd o ran y Strategaeth Gyfathrebu (Cynllun ‘D’).
- ‘Sybsidiaredd’ – yr egwyddor y dylai penderfyniadau gael eu gwneud ar y lefel wleidyddol fwyaf priodol; UE, cenedlaethol, rhanbarthol neu lywodraeth leol.
- Trafodaethau ym Mhwyllgor y Rhanbarthau.

- Y Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol – strategaeth y DU i ddefnyddio cronfeydd strwythurol yr UE rhwng 2007 a 2013, yn cynnwys Cymru
- Rowndiau masnach Sefydliad Masnach y Byd.

**Canolfannau Gwybodaeth Ewropeaidd**

2.41 Cafodd y Pwyllgor wybodaeth am y gwasanaethau gwybodaeth Ewropeaidd sydd ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae gennym ddiddordeb arbennig yng Nghanolfannau Uniongyrchol newydd Ewrop a fydd yn rhannu gwybodaeth am Ewrop mewn dull mwy rhagweithiol. Disgrifir mathau amrywiol o ganolfannau gwybodaeth Ewropeaidd isod.

***Canolfannau Dogfennaeth Ewropeaidd***

2.42 Fe'u lleolir bob amser mewn prifysgolion a sefydliadau ymchwil, gyda'r nod o'u helpu i hyrwyddo a datblygu addysg a gwaith ymchwil ar integreiddio Ewropeaidd gan eu hannog i gymryd rhan yn y ddadl ar Ewrop a gwneud yr hyn a allant i wneud Ewrop yn fwy tryloyw drwy helpu dinasyddion cyffredin i ddysgu am bolisïau'r Undeb.

2.43 Sefydlwyd y Canolfannau Dogfennaeth Ewropeaidd cyntaf yn 1963; heddiw mae tua 600 o ganolfannau ledled y byd, gyda 366 ohonynt yn yr UE. Mae 34 yn Lloegr, pedair yn yr Alban, dwy yng Nghymru a dwy yng Ngogledd Iwerddon. Lleolir canolfannau Cymru ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth a Phrifysgol Cymru, Caerdydd.

***Canolfannau Gwybodaeth Ewropeaidd***

2.44 Mae'r rhain yn canolbwyntio ar helpu busnesau i gael gwybodaeth am feysydd sy'n cynnwys cyfarwyddebau a rheoliadau Ewropeaidd, cyfleoedd contract y sector cyhoeddus, cyfleoedd busnes, cyllid a mentrau ymchwil a datblygu.

2.45 Sefydlwyd y rhwydwaith yn 1987 ac erbyn hyn mae dros 250 o ganolfannau, ledled Ewrop. Mae ganddo "gydberthynas freintiedig" â'r Comisiwn; hefyd, mae'n rhan o "b2Europe" (cynghrair o rwydweithiau cymorth busnes yn yr UE). Gall y canolfannau hyn gysylltu busnesau â rhwydweithiau arbenigol eraill mewn meysydd penodol.

2.46 Mae gan rwydwaith y Ganolfan Wybodaeth Ewropeaidd 19 o swyddfeydd yn y DU; mae un ohonynt yng Nghaerdydd, gydag is-swyddfa yn Sir y Fflint.

***Canolfannau Gwybodaeth i'r Cyhoedd Ewropeaidd (EPIC)***

2.47 Mae'r rhain yn aelodau o rwydwaith cynyddol o ganolfannau gwybodaeth a gaiff eu rhedeg gan awdurdodau llyfrgell y DU sydd, gyda chymorth Cynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yn y DU, yn cydweithio i ddarparu gwasanaeth gwybodaeth Ewropeaidd gwell i'w defnyddwyr llyfrgell. Nod EPIC yw:

- Ei gwneud yn haws i'r cyhoedd gael gwybodaeth am yr UE yn lleol;
- Ateb ymholiadau drwy ddefnyddio eu harbenigedd eu hunain ynghyd ag arbenigedd darparwyr gwybodaeth Ewropeaidd eraill (gan gynnwys swyddogion gwybodaeth y Comisiwn ei hun);
- Darparu cyhoeddiadau swyddogol yr UE,
- Darparu amrywiaeth o daflenni am ddim a gyhoeddwyd gan y Comisiwn.

2.48 Rhestrir eithaf tipyn ledled Cymru ar wefan DU y CE.

***Rhwydwaith Gwybodaeth Uniongyrchol Ewrop***

2.49 Sefydlwyd pum Canolfan Uniongyrchol Ewrop ers mis Gorffennaf 2006 yng Nghymru. Mae'r rhain yn rhan o rwydwaith newydd o 25 o ganolfannau gwybodaeth yr UE ledled y DU yn dilyn galwad agored y Comisiwn Ewropeaidd am gynigion, gan uno 400 o ganolfannau a oedd yn bodoli eisoes mewn aelod wladwriaethau eraill yn yr UE. Ariennir y rhwydwaith yn rhannol gan y Comisiwn Ewropeaidd, am gyfnod o dair blynedd yng Nghymru, gan ddechrau ym mis Mai 2006. Mae'r CE yn darparu 50% o gyllid gweithredol (hyd at €24,000 fesul canolfan) ond mae'n rhaid cael arian cyfatebol ar gyfer y swm hwn; naill ai gan awdurdodau lleol, busnesau lleol neu'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r CE yn eu cefnogi drwy amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys cyhoeddiadau a hyfforddiant. Caiff y rhaglen ei hadolygu yn 2009.

2.50 Rhydd Canolfannau Uniongyrchol Ewrop atebion i gwestiynau gan y cyhoedd am Ewrop, eu hawliau fel dinasyddion yr UE a ffynonellau gwybodaeth am bolisïau, rhaglenni a chyfleoedd ariannu. Maent yn hysbysu'r cyfryngau am faterion yr UE yn lleol neu'n rhanbarthol ac maent yn hybu trafodaeth leol a rhanbarthol am yr UE. Maent hefyd yn hwyluso partneriaethau trawsffiniol â'r rhai sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth Ewropeaidd; gan roi'r cyfle i'r cyhoedd anfon adborth i sefydliadau'r UE.

2.51 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan dair o'r pum Canolfan Uniongyrchol Ewrop a leolir yng Nghymru:

***Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)***

2.52 Sefydlwyd Canolfan Uniongyrchol Ewrop CGGC ym mis Mai 2006 ac mae'n gweithredu yng nghanolbarth Cymru (Powys a Cheredigion), gan roi gwybodaeth am yr UE i bobl yn lleol, gyda chenhadaeth i:

- Alluogi pobl leol i gael gwybodaeth, cyngor, cymorth ac atebion i gwestiynau am sefydliadau, deddfwriaeth, polisïau, rhaglenni a chyfleoedd ariannu'r Undeb Ewropeaidd.

- Hybu trafodaeth leol a rhanbarthol am yr UE a'i bolisïau.

- Rhoi'r cyfle i'r cyhoedd anfon adborth i sefydliadau'r UE.

- Helpu'r sefydliadau Ewropeaidd i wella'r broses o rannu gwybodaeth sydd wedi'i theilwra i anghenion lleol a rhanbarthol.

2.53 Ers sawl blwyddyn, mae'r CGGC wedi bod yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o gronfeydd strwythurol a'r Undeb Ewropeaidd, yn enwedig o ran ceisio cynyddu lefel y wybodaeth mewn cymdeithas sifil am yr Undeb Ewropeaidd. Mae bellach yn anelu at ymestyn y drafodaeth ar y materion ehangach, megis Ewro-lywodraeth, rôl cymdeithas sifil a'i chydberthynas â sefydliadau'r UE ynghyd â'i hymgysylltiad â sefydliadau anlywodraethol Ewropeaidd.

2.54 Mae'r CGGC wedi bod yn ceisio darbwyllo sefydliadau gwirfoddol a chymdeithas sifil y DU i chwarae rhan fwy gweithgar yn y broses o ddadansoddi goblygiadau polisi deddfwriaeth a ddaw o'r UE. Mae hefyd yn ceisio cydweithio â chyrff sector gwirfoddol Ewropeaidd tebyg, i gynyddu ei bŵer lobïo. Credwn y bydd gwaith y sector gwirfoddol yn dod yn fwyfwy pwysig fel modd i ennyn diddordeb dinasyddion mewn materion UE.

### *Y Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Hyfforddiant a Chydweithio Rhanbarthol (ECTARC)*

2.55 Prif amcan Canolfan Uniongyrchol Ewrop a gaiff ei rhedeg gan ECTARC yw darparu Gwasanaeth Gwybodaeth Ewropeaidd yn lleol drwy bartneriaeth ogledd-ddwyrain Cymru â Chyngor Sir Ddinbych, NEWI, (Athrofa Gogledd-ddwyrain Cymru), Wrecsam, Partneriaeth Dysgu Gydol Oes Dyffryn Dyfrdwy a Chyngor Tref Llangollen, gan gyrraedd calon cymunedau trefol a gwledig. Mae ECTARC wedi bodoli ers ugain mlynedd a daeth yn rhan o rwydwaith Canolfan Uniongyrchol Ewrop ym mis Medi 2006. Lleolir ECTARC yn Llangollen ac mae'n rhoi gwybodaeth am Ewrop i ddinasyddion, ysgolion a cholegau.

2.56 Amcanion penodol:

- Darparu system glirio i nodi partneriaid trawsgenedlaethol ar gyfer rhaglenni a ariennir gan yr UE.
- Rhoi cymorth i fusnesau bach a chanolig.
- Rhoi gwybodaeth gyffredinol am yr Undeb Ewropeaidd, ei sefydliadau a'i bolisïau i gynulleidfa ehangach, h.y., ysgolion, colegau, sefydliadau gwirfoddol.
- Llywio a hyrwyddo cyfranogiad yn rhaglenni'r UE, a allai effeithio ar fywyd trefol/gwledig drwy ddarparu gweithdai a chymorthfeydd gwybodaeth mewn lleoliadau allgymorth ledled gogledd-ddwyrain Cymru.
- Hwyluso ac ysgogi deialog a chydweithredu rhwng y cymdeithasau trefol/gwledig.
- Darparu canolfan 'galw heibio' gyhoeddus gydag adnoddau a chyngor ar raglenni Ewropeaidd a rhannu gwybodaeth am brosesau gwneud cais a therfynau amser.
- Darparu gwasanaeth gwybodaeth cynhwysfawr ynglŷn â: thrafodaeth bresennol yr UE yn Ewrop.
- Rhoi adborth i'r Comisiwn Ewropeaidd drwy anfon y cwestiynau, safbwyntiau ac awgrymiadau amlycaf ar y ffurf fwyaf priodol.
- Darparu adnodd dysgu cyffredinol ar Ewrop i ysgolion, colegau a phrifysgolion.

2.57 Eglurodd ECTARC sut yr oedd yn dechrau ymweld ag ysgolion a cholegau lleol, er mwyn codi ymwybyddiaeth o faterion Ewropeaidd a darparu gwybodaeth sylfaenol.

#### *Canolfan Gwybodaeth Uniongyrchol Ewrop De Cymru (SWEDIC)*

2.58 Lleolir SWEDIC ym Mhrifysgol Caerdydd ac ymunodd â rhwydwaith Canolfan Uniongyrchol Ewrop ym mis Medi 2006.

2.59 Yn ei thystiolaeth, pwysleisiodd SWEDIC fod angen i wybodaeth fod yn glir, yn wrthrychol, yn gynhwysfawr, yn berthnasol ac yn hawdd dod o hyd iddi. Rhestrwyd rhai

o'r datblygiadau cadarnhaol tuag at gyflawni'r amcan hwn o ran cael gafael ar wybodaeth am yr UE:

- Mae galluogi pobl i weld deddfwriaeth (Rheoliad 1049/2001) wedi golygu ei bod yn bosibl gweld llawer o ddogfennau UE pwysig. Credwn fod craffu ar ddeddfwriaeth yr UE yn golygu caniatáu i ddinasyddion ddal y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn eu henw yn atebol, drwy eu galluogi i weld yr holl ddata sylfaenol.

- Mae meysydd allweddol o'r fath megis gwybodaeth ddeddfwriaethol ac ystadegol wedi dod yn hawdd cael gafael arni drwy'r rhyngrwyd yn ystod y deng mlynedd diwethaf: chwyldro gwirioneddol o ran hygyrchedd. Drwy EU Bookshop, gydag amser, dylai holl gyhoeddiadau'r UE ddod ar gael yn hawdd.

- Darparwyd cronfeydd data mewnol megis yr Arsyllfa Ddeddfwriaethol i'r cyhoedd i'w alluogi i fonitro gweithgareddau llunio polisi'r Undeb Ewropeaidd.

- Cydnabod a gweithredu'r egwyddor bod 'cyfathrebu' yn broses ddeublyg a bod angen i Sefydliadau'r UE wrando ac ymgynghori, yn ogystal â rhannu gwybodaeth (Your Voice in Europe).

- Cydnabod y ffaith bod llawer o ddinasyddion yn defnyddio'r radio a'r teledu fel eu prif gyfrwng i gael gwybodaeth. Datblygu Europe by Satellite, cefnogaeth ariannol i EuroNews, datblygu sianel deledu ffrydio gwe benodedig ar gyfer Senedd Ewrop, a chyhoeddi adroddiad yr UE yn 2006 o'r enw 'Is there a case for an EU information television station'.

- Cydnabod na all darparu gwybodaeth am yr UE fod yn broses a ganolir ym 'Mrwsel' yn bennaf, ond bod yn rhaid iddi fod yn 'lleol' gan ddefnyddio sefydliadau, rhwydweithiau ac asiantaethau priodol, yn rhai cyhoeddus a masnachol, ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol.

- Mae lansiad diweddar rhwydwaith Canolfan Gwybodaeth Uniongyrchol Ewrop ledled yr UE yn fenter gan y Comisiwn Ewropeaidd i fod yn fwy gweladwy drwy'r rhanbarthau er mwyn galluogi dinasyddion i ganfod mwy, trafod a chyfrannu at weithgareddau'r UE.

2.60 Amlinellodd SWEDIC dair menter yr oedd yn eu datblygu, a oedd yn anelu at helpu pobl ifanc Cymru i gael gafael ar amrywiaeth o wybodaeth am Ewrop:

- Sefydlu cronfa ddata a gwefan o'r enw '**Cymru ac Ewrop**, a fydd yn dwyn ynghyd wybodaeth a gyhoeddwyd sy'n ymdrin â'r Undeb Ewropeaidd o safbwynt Cymreig yn benodol. Bydd yn amlygu gwybodaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol fel cyfanwaith, gan gynnwys ei bwyllgorau - ond bydd hefyd yn amlygu gwybodaeth gan awdurdodau lleol, cyrff proffesiynol, sefydliadau ymchwil ac academaidd, cyhoeddwyr masnachol a'r cyfryngau.

- Ar y cyd â Llywodraeth Cynulliad Cymru, cyhoeddi **European Sources Online' -** prif wasanaeth gwybodaeth electronig, sy'n galluogi'r defnyddiwr i ganfod

gwybodaeth am yr UE ac Ewrop yn ehangach mewn fformat 'hawdd ei ddefnyddio'.

- Cynnig hyfforddiant i unigolion a grwpiau sydd am ddysgu sut i gael gwybodaeth am Ewrop mewn ffordd broffesiynol, anffurfiol a chyfeillgar.

2.61 Newydd ddechrau cael eu dyfarnu yr oedd y contractau ar gyfer pum Canolfan Uniongyrchol cyntaf Ewrop yng Nghymru pan ddechreuasom ein hadolygiad. Calonogwyd y Pwyllgor gan frwdfrydedd y tair canolfan a roddodd dystiolaeth a byddem yn annog ein pwyllgor olynol i adolygu datblygiad y Canolfannau hyn ar ôl eu blwyddyn gyntaf ar waith.

**Cynnwys Dinasyddion yn y Broses Ddemocrataidd**

2.62 Cydnabyddwn nad dim ond yr Undeb Ewropeaidd sy'n wynebu'r her o gynnwys dinasyddion, yn enwedig yr ifanc, yn y broses ddemocrataidd. Mae llawer o lywodraethau ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol yn wynebu problem debyg.

2.63 Yn ystod 2006, cynhaliodd Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol adolygiad o drefniadau etholiadol yng Nghymru er mwyn nodi'r rhesymau pam nad yw pobl yn cael eu cynnwys yn y broses ddemocrataidd, ac i gynnig rhai atebion. Cyhoeddodd y Pwyllgor hwn ei adroddiad ym mis Rhagfyr 2006 a chyflwynodd 'bapur i'w nodi' i'n hymchwiliad ym mis Ionawr 2007; gweler Atodiad 1.

2.64 Roedd nifer y pleidleiswyr, yn enwedig pobl ifanc, yn peri pryder penodol i Aelodau. Er mwyn dangos graddau'r broblem, yn etholiad diwethaf y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mai 2003, dim ond tuag 20% o bleidleiswyr cofrestredig rhwng 18 a 34 oed a bleidleisiodd. Awgryma tystiolaeth o nifer y pleidleiswyr ledled Ewrop, os nad yw pobl ifanc wedi pleidleisio erbyn eu trydydd etholiad, ni fyddant byth yn gwneud hynny.

2.65 Gwnaeth y Pwyllgor nifer o argymhellion am y ffordd y caiff pobl ifanc yng Nghymru eu haddysgu i ddatblygu llythrennedd gwleidyddol. Mae am weld addysg dinasyddiaeth yng Nghymru yn cael ei darparu mewn modd cytbwys a chydgysylltiedig sy'n ystyried yn llawn yr angen i ddatblygu dealltwriaeth wleidyddol ymhlith pobl ifanc, a'u haddysgu am rolau, polisïau a safle pleidiau gwleidyddol yn ogystal â phrosesau gwleidyddol. Rhestrir yr argymhellion perthnasol (19-30) isod.

**Argymhellion perthnasol y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus:**

19. Argymhellwn y dylai'r Grŵp Cynllunio Etholiadau ystyried dulliau rhanbarthol a chenedlaethol o hyrwyddo'r broses bleidleisio ymhlith pobl ifanc.

20. Argymhellwn y dylai'r Grŵp Cynllunio Etholiadau ystyried cyflwyno mentrau a dargedir i annog grwpiau o bobl ifanc sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol ac yn economaidd i bleidleisio.

21. Argymhellwn y dylai'r adolygiad parhaus o'r cwricwlwm, gan gynnwys yr ymgynghoriad cyhoeddus, dalu sylw arbennig i'r angen i ddatblygu dealltwriaeth

wleidyddol ymhlith pobl ifanc a'u haddysgu am rolau, polisïau a safle pleidiau gwleidyddol yn ogystal â phrosesau gwleidyddol.

22. Argymhellwn y dylai canllawiau i ysgolion ar addysgu 'llythrennedd gwleidyddol' gynnwys yn benodol addysg am bleidiau gwleidyddol a rôl pobl ifanc yn y broses ddemocrataidd yn ogystal â chysyniadau gwleidyddol sylfaenol.

23. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu canllawiau i uwch dimau rheoli a llywodraethwyr ysgolion er mwyn sicrhau bod pwysigrwydd hyrwyddo llythrennedd gwleidyddol ym mywyd yr ysgol mewn modd cytbwys nad yw'n bartisan yn cael ei gydnabod a'u hannog i wahodd sefydliadau gwirfoddol, preifat a chyhoeddus, gan gynnwys pleidiau gwleidyddol, i'r ysgol i hwyluso trafodaeth ymhlith disgyblion.

24. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gydgysylltu'r canllawiau y mae'n eu rhoi i ysgolion ar weithredu cynghorau ysgol a gweithgareddau dinasyddiaeth, er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrannu'n briodol at ddealltwriaeth wleidyddol disgyblion a bod cysylltiadau priodol yn cael eu gwneud rhwng gweithgareddau cynghorau ysgol a mentrau dinasyddiaeth eraill, megis gwahodd gwleidyddion i ysgolion.

25. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu ei strwythurau mewnol er mwyn sicrhau bod y broses o ddarparu addysg dinasyddiaeth yn cael ei chydgysylltu'n strategol, o ddatblygu'r cwricwlwm i hyfforddi athrawon a gweithgareddau yn yr ystafell ddosbarth.

26. Argymhellwn y dylai canllawiau a hyfforddiant ganolbwyntio ar sicrhau bod pob disgybl, waeth beth fo'i gefndir, yn cael yr un anogaeth i gymryd rhan mewn cynghorau ysgol a mentrau dinasyddiaeth eraill ac y dylai Estyn fonitro cynrychiolaeth a chyfranogiad o safbwynt cydraddoldeb.

27. Argymhellwn y dylid rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod pob ysgol uwchradd yn darparu Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) gan ddefnyddio athrawon sydd wedi cael hyfforddiant arbennig ac sydd ag adnoddau o'r fath.

28. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru arwain y ffordd o ran hwyluso hyfforddiant ABCh i athrawon, gan ddarparu pecynnau adnodd ar gyfer hyfforddiant o'r fath a chefnogi athrawon i ddarparu ABCh.

29. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod enghreifftiau sy'n bodoli eisoes o arfer da mewn dinasyddiaeth ac addysg wleidyddol yn cael eu lledaenu'n briodol i bob ysgol a grŵp ieuenctid yng Nghymru.

30. Argymhellwn y dylai Comisiwn y Cynulliad ac awdurdodau lleol ddatblygu mentrau sy'n rhoi cyfleoedd i bobl ifanc o gefndiroedd gwahanol gysgodi gwleidyddion etholedig o'r Cynulliad a Llywodraeth Leol, a chymryd rhan mewn trafodaethau â gwleidyddion. Dylai mentrau o'r fath ystyried arfer da sy'n bodoli eisoes yng Nghymru a thu hwnt.

2.66 Cymeradwywn argymhellion y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn ein barn ni, po fwyaf y mae pobl ifanc yn ei ddysgu am y broses ddemocrataidd, y mwyaf tebygol y maent o gymryd rhan.

**Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang**

2.67 Cafodd y Pwyllgor gyflwyniadau ysgogol gan y Cyngor Prydeinig ac Oxfam Cymru ar y pwnc hwn.

2.68 Mae Addysg Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yn cynnwys y cwricwlwm cyfan a'r broses o reoli'r ysgol, ac nid dim ond pwnc 'ychwanegol' ydyw. Mae wedi'i seilio ar addysg amgylcheddol ac addysg datblygu.

2.69 Mae Addysg Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yn cwmpasu:

- Y cysylltiadau rhwng y gymdeithas, yr economi a'r amgylchedd a rhwng ein bywydau ein hunain a bywydau pobl ledled y byd.
- Anghenion a hawliau'r genhedlaeth bresennol a chenedlaethau i ddod.
- Y gydberthynas rhwng pŵer, adnoddau a hawliau dynol.
- Goblygiadau lleol a byd-eang popeth a wnawn a'r camau y gall unigolion a sefydliadau eu cymryd mewn ymateb i faterion lleol a byd-eang.

2.70 Er mwyn hwyluso'r broses o addysgu datblygu cynaliadwy mewn ysgolion, yn 2001, sefydlodd Gweinidog Addysg y Cynulliad banel cynghori ar addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy; a gweithgor ar wahân ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang. Yn 2004, penderfynwyd y dylai'r cyrff hyn ddod at ei gilydd i ffurfio un panel addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy i gynghori'r Gweinidog.

2.71 Mae aelodaeth y panel cynghori hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau'r Cynulliad Cenedlaethol, Estyn, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac amrywiaeth o sefydliadau anlywodraethol a gwirfoddol, gan gynnwys; y Cyngor Prydeinig, Oxfam Cymru, Cyfanfyd, Fforwm Ieuenctid Cymru a Cadw Gymru'n Daclus. Ei brif gyfrifoldeb yw ystyried sut y gall y cysyniad o ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang gael ei ymgorffori orau mewn addysg a hyfforddiant at ei gilydd; tra'n datblygu gweledigaeth hirdymor o ran Addysg Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang.

2.72 Cyhoeddwyd 'Strategaeth Weithredu' gan y panel cynghori ym mis Medi 2006; gellir ei gweld yn - www.cymru.gov.uk/educationand skills mae'r cynllun gweithredu hwn yn cwmpasu cyfnod o dair blynedd rhwng 2006 a 2009; a deilliodd o ymgynghoriad eang. Mae'r ddogfen ymgynghori hefyd ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol.

2.73 Mae'r cynllun gweithredu strategol yn amlinellu rhaglen i ddatblygu ADCDF drwy'r lefelau amrywiol o addysg a dysgu gydol oes, gan gynnwys; ysgolion, y sector ieuenctid, addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith, addysg uwch ac addysg i oedolion. Nod cyffredinol y cynllun gweithredu yw gwerthuso sefyllfa bresennol ADCDF ymhob sector, lledaenu arfer da, a sefydlu llinell sylfaenol y gellir mesur cynnydd yn ei erbyn.

2.74 Mae ADCDF yn seiliedig ar y rhagosodiad nad dim ond caffael gwybodaeth y mae addysg dda yn ymwneud ag ef, ond y dylai pob dysgu ddigwydd ar y cyd â datblygu sgiliau a gwerthfawrogi agweddau a gwerthoedd. Mae a wnelo â holi cwestiynau, meddwl yn feirniadol ac archwilio syniadau. Yn bennaf oll, mae a wnelo ag ystyried materion sy'n

berthnasol i bobl ifanc; er enghraifft, tlodi, teulu, ffrindiau, pandas neu goedwig Brasil; a mynd y tu hwnt i ystyried y rhain a meddwl am ffyrdd o ddatrys problemau o'r fath a gwirfoddoli.

2.75 Roedd gennym ddiddordeb mewn canfod sut y caiff ADCDF ei haddysgu mewn ysgolion a chawsom sawl enghraifft ymarferol gan Oxfam Cymru:

- Plant yn adran babanod Ysgol Penybryn yng Nghaernarfon yn dod i wybod am fywyd plentyn yn Ethiopia, ac yn archwilio'r tebygrwydd a'r gwahaniaeth rhwng eu bywydau hwy a'i bywyd hi.

- Plant yn Ysgol Rhyd-y-grug yn Rhondda Cynon Taf yn gwahodd eu AS lleol, Dai Havard, i'r ysgol fel rhan o'r ymgyrch addysg fyd-eang, gan ofyn iddo pam bod cyn lleied o athrawon yn Affrica a rhoi coeden gobaith iddo - yn syml iawn, rhestr o hawliau y dylai plant eu mwynhau.

- Plant o Ysgol Gwaungynfi yng Ngwynedd, yn archwilio masnach deg o ran bananas, gan olrhain taith banana a chanfod sut maent yn cyrraedd eu harchfarchnad, pwy sy'n gyfrifol am dyfu bananas, sut y cânt eu cludo, a yw'r rhai sy'n gyfrifol yn ennill cyflog cynaliadwy a sut mae tyfwyr bananas ar eu hennill drwy berthyn i gwmni cydweithredol masnach deg.

- Disgyblion o Ysgol Gyfun Bedwas yn ymchwilio i lysiau organig gyda help Canolfan Organig Cymru yn Aberystwyth; neu gynhyrchu papur o fwydion papur wedi'i ailgylchu gyda'r Comisiwn Coedwigaeth; neu ddylunio tyrbinau gwynt fel rhan o brosiect technoleg.

2.76 Cytunwn ag Oxfam Cymru mai'r her wirioneddol i ADCDF yw rhoi polisi ar waith. Mae'n rhaid i athrawon, ysgolion, colegau a sefydliadau gyflawni'r her hon oherwydd nid oes a wnelo â newid y cwricwlwm yn unig. Mae'r cynllun gweithredu strategol o blaid;

*...dull integredig o ddatblygu ADCDF o gynnwys pwnc i addysgu a dysgu ac ethos a rheolaeth ysgol.*

2.77 Mae'r strategaeth yn croesawu newid addysgol. Mae ADCDF yn rhan gref o'r cyfnod sylfaen, llwybrau dysgu 14-19, bagloriaeth Cymru, UG ac A2 Cyd-bwyllgor Addysg Cymru ar ddatblygiad y byd a'r UG mewn astudiaethau dinasyddiaeth. Bydd ADCDF yn rhan amlycach o orchmynion y cwricwlwm cenedlaethol ar ôl adolygu'r cwricwlwm, a weithredir ym mis Medi 2008.

2.78 Roeddem am ddysgu mwy ynghylch sut yr addysgwyd ADCDF mewn ysgolion; mewn enghreifftiau ymarferol penodol o arfer da. Yn ei gyflwyniad, cyfeiriodd Oxfam Cymru at adroddiad diweddar gan Estyn o'r enw *'Sefydlu datganiad sefyllfa ar gyfer Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang yng Nghymru'*. Mae'r ddogfen hon yn Hawlfraint y Goron a gellir ei gweld yn www.estyn.gov.uk - Estyn yw Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

2.79 Atgynhyrchir prif ganfyddiadau adroddiad Estyn isod:

2.80 Nid oes gan athrawon na chynghorwyr ddealltwriaeth glir a chyson o ddiffiniad, diben a manteision ADCDF. Rhydd hyn her fawr wrth geisio nodi meini prawf i werthuso perfformiad yn y maes hwn. Ar y cyfan, mae ysgolion, colegau ac awdurdodau addysg lleol (AALl) yn fwy hyderus *ynghylch datblygu cynaliadwy na dinasyddiaeth fyd-eang, ac yn canolbwyntio ar yr elfen honno'n fwy.*

2.81 Er bod ysgolion yn teimlo'n hyderus ynghylch hyrwyddo datblygu cynaliadwy, yn aml maent yn llai eglur ynghylch nodi sut ac ymhle y gallant ddatblygu sgiliau a gwerthoedd cysylltiedig. Ar y cyfan, mae personél allweddol mewn ysgolion a cholegau yn gyfarwydd â'r cysyniadau allweddol sylfaenol yn nogfen gyfarwyddyd y cwricwlwm, ond mae aelodau eraill o staff yn anghyfarwydd â hwy ar y cyfan. Yn gyffredinol, nid yw athrawon o'r farn bod y cysyniadau yn ffordd ddefnyddiol o drefnu gwaith a gweithgareddau ADCDF.

2.82 Sefyllfa Bresennol ADCDF mewn ysgolion yng Nghymru yw:

- Gwneir mwy o waith ar ddatblygu cynaliadwy na dinasyddiaeth fyd-eang;
- Mae gwaith mewn ysgolion cynradd o ansawdd gwell ac yn fwy datblygedig nag mewn ysgolion uwchradd;
- Mae pob ysgol yn gwneud rhywfaint o waith sy'n gysylltiedig ag ef;
- Prin yw'r sylw cydlynol a chyson a roddir iddo gan tua thri chwarter o ysgolion;
- Mae tua un rhan o bump o ysgolion, sy'n rhai cynradd yn bennaf, yn dechrau datblygu eu gwaith drwy broses gydgysylltu well;
- Mae ganddo le canolog sydd wedi'i drefnu'n dda ym mywyd a gwaith llai nag un rhan o ddeg o'r cyfanswm ac ysgolion cynradd yw'r ysgolion hyn bron yn gyfan gwbl.

2.83 Mae'r pedwar coleg a gynhwysir yn yr arolwg ar gamau datblygu gwahanol o ran eu gwaith ar ADCDF. Mae dau ohonynt wedi archwilio eu darpariaeth ac maent yn ei hymgorffori yn eu cwricwlwm, ethos a gwerthusiad. Mae un coleg yn cynllunio ar gyfer ei hymgorffori'n fwy ac mae'r pedwerydd ar gam datblygu cynharach. Mae'r holl golegau yn rhoi mwy o bwyslais ar ddatblygu cynaliadwy nag ar ddinasyddiaeth fyd-eang.

2.84 Mae cefnogaeth AALl i ADCDF yn anghyson ledled Cymru. Pan roddir cefnogaeth AALl, mae'n canolbwyntio ar ddarparu digwyddiadau hyfforddi, sy'n aml mewn cysylltiad â'r fenter Galluogi Cymorth Effeithiol (EES). Mae AALlau yn arbennig o weithgar o ran hyrwyddo cyfranogiad ysgolion mewn cynlluniau gwobrwyo a mentrau tebyg, yn enwedig Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach Cymru.

2.85 Heblaw am yr hyn a geir gan AALlau, mae ysgolion fel arfer yn cael canllawiau a chymorth defnyddiol gan:

- Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach Cymru;
- Cynllun Gwobrwyo Eco-ysgolion, a chynlluniau amgylcheddol tebyg;
- Canolfannau Addysg Datblygu;
- cynlluniau cyswllt ysgolion rhyngwladol.

2.86 Mae EES yn weithgar o ran llunio strategaethau a fframweithiau rhanbarthol sy'n galluogi ysgolion i hyrwyddo cysylltiadau byd-eang a deall materion sy'n ymwneud â thlodi'r byd. Fodd bynnag, prin yw'r ysgolion sy'n ymwybodol o'r gwaith hwn ar y cyfan. Caiff colegau Addysg Bellach gymorth gan Ganolfannau Addysg Datblygu lleol a chan rai grwpiau cymunedol yn bennaf.

2.87 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn ymwneud ag un neu fwy o gynlluniau gwobrwyo neu maent yn gysylltiedig ag ADCDF. Ar y cyfan, mae'r ysgolion sy'n cymryd rhan yn gadarnhaol ynghylch cynlluniau gwobrwyo. Fel rheol, mae cynlluniau yn canolbwyntio ar ddatblygu cynaliadwy a byw'n iach ac nid ydynt yn rhoi digon o sylw i ddinasyddiaeth fyd-eang. Ar y cyfan, mae elfennau canlynol y cynlluniau yn drysu athrawon:

- Nifer y cynlluniau gwobrwyo gwahanol;
- Y diffyg cydgysylltiad rhyngddynt a mentrau eraill;
- Dangosyddion a gofynion ansawdd gwahanol y cynlluniau.

2.88 Mae ysgolion a cholegau o'r farn ei bod yn bwysig sicrhau bod cyllid penodol ar gael ar gyfer ADCDF, yn enwedig i wella'r broses o gydgysylltu gweithgareddau. Cyfeiriodd ysgolion at effaith gadarnhaol cydgysylltwyr lleol ar gyfer cynlluniau megis Rhwydwaith Cynllun Ysgolion Iach Cymru ac AG a Chwaraeon Ysgol.

2.89 Awgrymodd Estyn mai'r cyfleoedd allweddol i ddatblygu ADCDF ymhellach yw:

- Potensial yr adolygiad presennol o'r cwricwlwm cenedlaethol a Chynllun Gweithredu Addysg Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang Llywodraeth Cynulliad Cymru i godi ei broffil;
- Diwygio manylebau arholiadau ac ehangu elfen graidd Cymhwyster Bagloriaeth Cymru;
- Ychwanegu agweddau dinasyddiaeth fyd-eang at ganllawiau arolygu Estyn ar gyfer addysg bellach;
- Y fenter EES, a all helpu i sefydlu proses gydweithredol rhwng asiantaethau gwahanol a rhwng partneriaid statudol ac anstatudol.

2.90 Nododd Estyn fod cyfyngiadau allweddol o ran datblygu ADCDF fel a ganlyn:

- Y blaenoriaethau croes o ran cynllunio'r cwricwlwm;
- Yr angen i resymoli blaenoriaethau strategol o ran cynllunio'r cwricwlwm er mwyn helpu ysgolion a cholegau i fynd i'r afael â mentrau Llywodraeth Cynulliad Cymru;
- Blaenoriaethu annigonol o fewn ysgolion;
- Diffyg gwybodaeth am arfer da, gan gynnwys cael gafael ar syniadau syml sy'n hawdd eu deall;
- Cystadleuaeth ganfyddedig rhwng sefydliadau anlywodraethol a rhwng mentrau gwahanol;
- Cefnogaeth fwy cyfyngedig i addysg dinasyddiaeth fyd-eang o gymharu ag addysg datblygu cynaliadwy.

2.91 Gwnaeth Estyn sawl argymhelliad i Lywodraeth Cynulliad Cymru, i'w gweithredu gan banel cynghori ADCDF. Roedd y grŵp cyntaf yn ymwneud â'r angen i egluro diffiniad, diben a rhesymeg ADCDF.

2.92 Roedd yr argymhellion eraill yn ymwneud â:

- Datblygu strategaeth i gefnogi'r broses leol o gydgysylltu gwaith ADCDF ar draws awdurdodau gwirfoddol a statudol, ac asiantaethau.
- Darparu canllawiau i helpu darparwyr i wella ansawdd addysgu a dysgu a'r safonau a gyrhaeddir gan ddysgwyr, a fframwaith i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus athrawon;
- Sefydlu meini prawf penodol i alluogi darparwyr ADCDF i werthuso eu gwaith.

2.93 Mae gennym ddiddordeb mawr mewn dysgu am egwyddorion ADCDF a chytunwn ei bod yn ddull gwerthfawr o rannu gwybodaeth am faterion allweddol sy'n effeithio ar fywydau pobl ifanc yng Nghymru a'r byd ehangach. Yn bwysicach, pan gaiff ei haddysgu'n dda, mae'n datblygu'r sgil bwysig o feddwl yn feirniadol; helpu pobl ifanc i lunio eu barn eu hunain a phrofi'r syniadau hyn wrth eu trafod â'u cyfoedion.

2.94 Yn ei gyflwyniad, amlinellodd y **Cyngor Prydeinig** nifer o raglenni perthnasol:

- **Cynllun gwobrwyo blynyddol** i hyrwyddo gweithgareddau ADCDF mewn ysgolion.
- **Galluogi Cymorth Effeithiol (EES);** ar sail menter ledled y DU, a arweinir gan yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol, i gynorthwyo ysgolion a sefydliadau addysgol eraill i ddarparu ADCDF mewn modd mwy strategol.
- **Comenius 1;** mae'r rhaglen hon yn cefnogi amrywiaeth o bartneriaethau ysgol sy'n galluogi disgyblion, myfyrwyr ac athrawon o bob cwr o Ewrop i gydweithio ar brosiectau ar y cyd. Ariannwyd tua 101 o brosiectau o'r fath yng Nghymru yn ystod 2006.
- **Comenius 2;** rhydd y rhaglen hon gyfleoedd o ran datblygiad proffesiynol parhaus i athrawon cymwys ac athrawon dan hyfforddiant, er mwyn gwella eu dealltwriaeth o faterion Ewropeaidd ymhellach. Rhydd hefyd gyfle i ddatblygu adnoddau addysgu. Dim ond pedwar prosiect o'r fath a ariannwyd yng Nghymru yn ystod 2006.
- **Rhaglen Partneriaethau Ysgolion Byd-eang DFID;** mae'r rhaglen hon yn hyrwyddo partneriaethau rhwng ysgolion yn y DU ac ysgolion yn Affrica, Asia, America Ladin a'r Caribî. Rhydd y rhaglen gyngor a chanllawiau, cyfleoedd datblygu proffesiynol a grantiau i ysgolion sy'n defnyddio partneriaethau ysgol fel modd i ddatblygu dimensiwn byd-eang o fewn eu cwricwlwm. Mae'n annog cynnwys cymunedau lleol mewn partneriaethau ysgol, rhannu arfer gorau ac mae'n cyflwyno cynlluniau achredu ar gyfer athrawon sy'n cymryd rhan. Nod y rhaglen yw codi ymwybyddiaeth pobl ifanc o faterion datblygu byd-eang a rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth iddynt ddod yn ddinasyddion byd-eang gweithgar.

- **Gweithdai** i staff ysgol sy'n ystyried dechrau partneriaeth ysgol fyd-eang neu sydd newydd ddechrau partneriaeth o'r fath. Ar hyn o bryd, dim ond Cynulliad Cenedlaethol Cymru, o blith yr holl weinyddiaethau datganoledig, sy'n ategu'r rhaglen hon drwy ddarparu adnoddau ychwanegol i alluogi ysgolion yng Nghymru i ddatblygu cysylltiadau â Lesotho. Rheolir y gwaith hwn mewn partneriaeth â Dolen Cymru.
- **Connecting Classrooms;** rhydd gyfle i grwpiau clwstwr o dair ysgol yn y DU ffurfio partneriaethau ag ysgolion o ddwy wlad wahanol yn Affrica Is-Sahara, er mwyn gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o gymdeithasau'r naill a'r llall.
- **Dreams + Teams, Africa;** bydd y rhaglen hon yn hwyluso partneriaethau rhwng 200 o ysgolion mewn 19 o wledydd Affricanaidd ag ysgolion yn y DU. Bydd yn canolbwyntio ar ddefnyddio chwaraeon i gyflawni newid cymdeithasol ac addysgol yn yr ysgolion a'u cymuned ehangach.
- **Global Gateway;** gwefan ar-lein yw hon sy'n helpu ysgolion a cholegau addysg bellach i ganfod partneriaid rhyngwladol ar gyfer eu rhaglenni.
- **Gwobr Ysgolion Rhyngwladol;** rhydd y cynllun hwn fframwaith sy'n galluogi ysgolion i ffurfio a datblygu partneriaethau rhyngwladol i gyflawni nodau o fewn y cwricwlwm.
- **Rhaglen Cyfnewid Athrawon y DU/UDA Fulbright;** caiff y rhaglen hon ei rhedeg gan y Cyngor Prydeinig, ar y cyd ag Adran Wladol yr UDA. Mae'n cynnig y cyfle i athrawon o'r DU newid lle ag athrawon yn America er budd y ddwy ochr.
- **Rhaglen Cysgodi Gwaith y DU/UDA Fulbright;** rhydd gyfle i benaethiaid, eu dirprwyon ac uwch reolwyr eraill yn y gwasanaeth addysg, sy'n cwmpasu pob lefel o'r feithrinfa i addysg bellach, gyfnewid lle â chydweithwyr mewn sefyllfaoedd tebyg yn UDA.
- **Arion;** rhydd gyfleoedd i benaethiaid, dirprwyon a staff awdurdod lleol ymchwilio i agweddau ar addysg Ewropeaidd drwy ymweliad astudio pum niwrnod.
- **Rhaglen Cyfnewid Athrawon Ewrop (ieithoedd tramor modern);** rhydd gyfle datblygu proffesiynol i athrawon ieithoedd tramor modern gyfnewid lle â chyd-athrawon Ewropeaidd.
- **Rhaglen Lleoli Athrawon Lesotho;** rhydd gyfle i dreulio chwe mis yn gweithio yn Lesotho mewn ysgol leol ac mae ar gael i athrawon newydd gymhwyso, yn ogystal ag athrawon mwy profiadol.
- **Rhaglen Addysgu Patagonia;** rhydd gyfle i addysgu Cymraeg ym Mhatagonia am flwyddyn academaidd.
- **Cynorthwywyr Iaith Saesneg;** rhydd gyfleoedd i addysgu Saesneg dramor fel cynorthwyydd ystafell ddosbarth.
- **Cynorthwywyr Iaith Comenius;** rhydd gyfleoedd ledled Ewrop i fyfyrwyr a graddedigion ystyried gyrfa fel athro.
- **Cynorthwywyr Ieithoedd Tramor;** gall cynorthwyydd ieithoedd tramor ddod â dysgu'n fyw i fyfyriwr, neu grŵp bach o fyfyrwyr, a thrwy hynny wella eu hyder i siarad a deall iaith.
- **E-gyfeillio;** cynllun newydd sy'n galluogi ysgolion yn y DU i gydweithio ag ysgolion yng ngweddill Ewrop, gan ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, ar amrywiaeth o brosiectau cwricwlwm.

2.95 Canmolwn y Cyngor Prydeinig am ddarparu ystod mor eang o gyfleoedd datblygu a phartneriaeth proffesiynol i ysgolion a cholegau addysg bellach yn y DU; ac yn ein barn ni, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau addysg lleol Cymru annog a hwyluso mwy o gyfranogiad yn y rhaglenni hyn.

**Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Ewrop**

2.96 Gwnaeth Gweinidog y Cynulliad dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Davidson) gyflwyniad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ddatblygiadau yn yr Undeb Ewropeaidd ym maes addysg a dysgu gydol oes. Mae Cymru yn un o sefydlwyr Cymdeithas Awdurdodau Rhanbarthol a Lleol Ewrop dros Ddysgu Gydol Oes (EARLALL); rhwydwaith o ugain o ranbarthau Ewropeaidd sy'n gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu polisïau, strategaethau a dulliau dysgu gydol oes newydd. Nododd y Gweinidog fod bod yn aelod o EARLALL wedi galluogi Cymru i leisio ei barn yn Ewrop. Mae EARLALL wrthi'n atgyfnerthu ei chysylltiadau â sefydliadau amrywiol yr UE.

2.97 Yn ei chyflwyniad eang ei gwmpas, gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol sy'n berthnasol i'n hymchwiliad:

- Eir i'r afael â materion Ewropeaidd a byd-eang ym Magloriaeth Cymru - yn fwyaf nodedig yn 'Cymru, Ewrop a'r byd' a chydrannau ABCh y dystysgrif graidd.
- Caiff yr elfen 'Cymru, Ewrop a'r byd' ei hehangu i bob dysgwr rhwng 14 a 19 oed o 2008.
- Mae cyfleoedd eraill yn y cwricwlwm cenedlaethol yn bodoli o fewn hanes, daearyddiaeth ac ABCh - mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi'n eu hadolygu ar hyn o bryd.
- Chwaraeodd 'Y Ddraig Ffynci', cynulliad plant a phobl ifanc Cymru, ran bwysig yn nigwyddiad ieuenctid Llywyddiaeth y DU yn 2005 ac mae'n parhau i godi ei broffil yn Ewrop;
- Mae 'Clic', y gwasanaeth gwybodaeth a chyngor i bobl ifanc yng Nghymru, wedi cynnwys adran 'Y Byd, Ewrop, DU a Chymru' ar ei wefan.
- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hyrwyddo cyfres o bolisïau a phrosiectau sy'n anelu at hyrwyddo cyfranogiad pobl ifanc yn eu cymunedau lleol
- Yn draddodiadol, mae cyfranogiad Cymru mewn rhaglenni Ewropeaidd, megis Comenius - i hyrwyddo rhaglenni cyfnewid diwylliannol ac addysgol, wedi bod yn uchel, o gymharu â rhannau eraill o'r DU. Ac eto, er bod ysgolion yng Nghymru, fel y nododd y Cyngor Prydeinig, yn mwynhau'r agwedd cyswllt ysgolion ar y rhaglen, mae nifer yr athrawon sy'n cyfrannu at yr agwedd datblygu proffesiynol, i wella eu dealltwriaeth o faterion Ewropeaidd, yn gymharol brin.

2.98 Yn ei adroddiad i'r Pwyllgor ar 24 Ionawr 2007, dywedodd y Prif Weinidog - *Mae cyfleu materion sy'n gysylltiedig â'r UE wedi dod yn fater mwyfwy amlwg. Mae pwysigrwydd cyfathrebu a'r angen i gau'r bwlch cyfathrebu wedi bod yn thema reolaidd yn y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ceir angen clir i godi ymwybyddiaeth o faterion yr UE a, chyda'm swyddogion, rwyf wedi cytuno ar raglen o fentrau i fynd i'r afael â'r mater hwn. Bydd y gweithgareddau arfaethedig yn cynnwys gweithgareddau mewnol ar gyfer swyddogion Llywodraeth y Cynulliad a gweithgareddau*

*allanol ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru, megis Fforwm Cymru ar Faterion Ewropeaidd, darparu stondinau gwybodaeth mewn digwyddiadau allweddol a chynnal digwyddiadau gyda siaradwyr gwadd o sefydliadau'r UE. Pan fo'n briodol byddant yn ffurfio rhan o raglen reolaidd ac ni fyddant yn gyfyngedig i 2007. Caiff y camau gweithredu eu hadolygu'n rheolaidd."* Croesawn yr ymrwymiad hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Ymgynghoriad**

2.99 Ym mis Hydref 2006, dosbarthwyd holiadur i'r sefydliadau a restrir yn Atodiad 2 a gwahoddwyd ymatebion, naill ai'n ysgrifenedig neu drwy e-bost, erbyn 31 Ionawr 2007. Anelwyd yr holiadur at bobl ifanc, sef y rhai 25 oed neu iau.

2.100 Cafwyd tua 50 o ymatebion ac fe'u darperir yn Atodiad 3 ar ffurf tabl.

2.101 Roedd yr ymatebion yn galonogol, gan i tua 71% o'r rhai a ymatebodd nodi bod yr Undeb Ewropeaidd yn bwysig iddynt; er mai dim ond 16% a nododd ei fod yn bwysig iawn iddynt.

2.102 Yn ddiddorol, roedd 80% o'r rhai a ymatebodd o'r farn bod penderfyniadau a wneir yn Ewrop yn effeithio ar bobl sy'n byw yng Nghymru ond dim ond 53% oedd o'r farn bod penderfyniadau o'r fath yn effeithio arnynt hwy yn bersonol.

2.103 Teledu (36%) oedd y dull pwysicaf o gael gwybodaeth am yr Undeb Ewropeaidd o bell ffordd, gyda'r ysgol a'r rhyngrwyd yn ei ddilyn (10% yr un). Roedd y ffaith nad oedd tuag 16% o'r rhai a ymatebodd yn ceisio cael gwybodaeth o'r fath yn peri pryder.

2.104 Gwahoddwyd awgrymiadau ar sut i'w gwneud yn haws i ganfod mwy am yr UE. Cafwyd cynigion amrywiol ac yn eu plith roedd:

- Trafodaeth yn yr ysgol, naill ai gydag athrawon neu siaradwyr gwadd.
- Trafodaeth gyda rhieni neu oedolion eraill.
- Posteri a thaflenni.
- Papurau newydd, llyfrau, cylchgronau a llyfrau comic.
- Y Rhyngrwyd
- Teledu; un awgrym ymarferol oedd darparu sianelau teledu gwybodaeth rhyngwladol, ar y cyd â darlledwyr.

## 3. Casgliadau

3.1 Daeth yn amlwg, yn ystod yr ymchwiliad, bod llawer iawn o weithgarwch wedi'i gyflawni neu'n mynd rhagddo; er enghraifft, datblygu ABCh fel y prif ddull o ddarparu addysg dinasyddiaeth mewn ysgolion; treialu bagloriaeth Cymru a'i hehangu i bob ysgol yng Nghymru o fis Medi 2007; 'Strategaeth Weithredu' i ddarparu Addysg Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) mewn ysgolion a cholegau; sefydlu, gyda chyllid gan y Comisiwn Ewropeaidd, bum Canolfan Uniongyrchol Ewrop i helpu i rannu gwybodaeth am Ewrop ymhlith dinasyddion, ysgolion, colegau a busnesau; a'r adolygiad presennol o'r cwricwlwm cenedlaethol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys fframwaith ABCh diwygiedig.

3.2 Cydnabyddwn y gwaith hwn, ynghyd ag adolygiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus o'r 'Trefniadau Etholiadol yng Nghymru'. Rydym yn ddiolchgar i'r holl unigolion a'r sefydliadau hynny a gyflwynodd dystiolaeth, naill ai'n bersonol neu drwy ein hymgynghoriad.

3.3 Cyflwynodd Papur Gwyn y Comisiwn Ewropeaidd, y cyfeiriwyd ato yn Adran 1, sawl syniad o dan bum prif bennawd:

- Diffinio egwyddorion cyffredin Polisi Cyfathrebu'r UE, o bosibl mewn dogfen fframwaith neu siarter.
- Datblygu dulliau a chyfleusterau i'w gwneud yn haws i'r cyhoedd gael gwybodaeth.
- Cynnwys y cyfryngau mewn ffordd fwy effeithiol a defnyddio technoleg newydd i gyfleu materion sy'n ymwneud â'r UE yn gyhoeddus.
- Gwella mesurau i ganfod barn y cyhoedd.
- Sicrhau mwy o ymgysylltiad rhwng Aelod Wladwriaethau, sefydliadau'r UE a Sefydliadau Cymdeithas Sifil.

3.4 Yn ein hymateb i'r Papur Gwyn, gwnaethom gytuno â'r Comisiwn bod y system addysg genedlaethol yn chwarae rhan bwysig mewn perthynas â dealltwriaeth pobl o wleidyddiaeth a'u hawliau fel dinasyddion. Credwn mai'r ffordd fwyaf effeithiol o newid canfyddiadau yw drwy addysg ddinesig mewn ysgolion.

3.5 Yn unol â hynny, byddwn yn cyflwyno'r adroddiad hwn i Weinidog y Cynulliad dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, mewn ymateb i'r adolygiad presennol o'r cwricwlwm ysgol yng Nghymru. Byddwn hefyd yn cyflwyno copi o'r adroddiad i'r Prif Weinidog, yn rhinwedd ei swydd fel y Gweinidog dros Faterion Ewropeaidd ac Allanol. Bydd yr adroddiad hefyd yn cael ei osod yn y Cynulliad Cenedlaethol ac ar ei wefan - www.cymru.gov.uk

3.6 Mae adroddiad Eurydice yn nodi'r materion allweddol o ran addysg dinasyddiaeth effeithiol sef:

- I ba raddau y mae wedi'i hymgorffori yn y cwricwlwm;
- Hyfforddiant i athrawon ar ddimensiwn Ewropeaidd addysg dinasyddiaeth;
- Cefnogaeth i athrawon a deunyddiau addysgu;
- Gweithgareddau yng nghyd-destun yr ysgol ehangach.

3.7 Croesawn y fframwaith ABCh diwygiedig; yn benodol, y ffaith bod y deg agwedd ar y fframwaith presennol wedi'u rhesymoli yn bum thema allweddol:

- Iechyd a lles emosiynol.
- Datblygiad moesol ac ysbrydol.
- Dinasyddiaeth weithgar.
- Datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang
- Paratoi ar gyfer dysgu gydol oes.

3.8 Cymeradwywn y sgiliau meddwl a gaiff eu datblygu yn ystod gwersi ABCh, drwy'r camau allweddol amrywiol; er enghraifft, yng nghyfnod allweddol 2, dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- Wahaniaethu rhwng ffeithiau, credoau a safbwyntiau.
- Llunio safbwyntiau personol a gwneud penderfyniadau hyddysg
- Defnyddio technegau priodol ar gyfer myfyrdod personol.

3.9 O fewn y fframwaith, ategir y sgiliau meddwl hyn gan sgiliau cyfathrebu a'r cyfle i'w meithrin drwy weithio gydag eraill; i gyfnewid syniadau, pwyso a mesur tystiolaeth, llunio safbwyntiau a'u lleisio. Yn ein barn ni, bydd y fframwaith ABCh diwygiedig o gymorth mawr i ymdrin â'r materion a godwyd yn ystod ein hymchwiliad ac a nodir yn Adran 2. Yn ogystal, argymhellwn y dylai unrhyw wersi a ddysgir yn sgîl treialu Bagloriaeth Cymru gael eu hymgorffori yn y fframwaith ABCh newydd.

3.10 Caiff y ddogfen a gyhoeddwyd yn ddiweddar 'Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang - Strategaeth Weithredu' ei defnyddio gan athrawon i gyflwyno'r elfen datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang o ABCh. Dylid ei chynnwys yn y fframwaith ABCh diwygiedig, sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd.

3.11 Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gomisiynu Estyn i werthuso'r broses o weithredu ADCDF yn 2010, er mwyn mesur cynnydd ers ei adroddiad sylfaenol yn 2006.

3.12 Er i ni weld rhai taflenni gwybodaeth llawn dychymyg a gynhyrchwyd gan Aelod Wladwriaethau amrywiol a'r Comisiwn Ewropeaidd, yn ein barn ni un o'r problemau sy'n gysylltiedig â chyrraedd ac ennyn diddordeb pobl ifanc yw natur liniarol llawer o'r deunydd addysgu sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae'n hanfodol bod dinasyddion ifanc yn gallu cael gwybodaeth o ansawdd da yn hawdd, mewn amryw fformat, i lywio ac ysgogi trafodaeth. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn ymgynghoriad â'r Comisiwn Ewropeaidd efallai, gomisiynu deunydd o'r fath i'w ddefnyddio mewn ysgolion.

3.13 Croesawn y mentrau i fynd i'r afael â'r her hon a gyflawnir gan Ganolfannau Uniongyrchol newydd Ewrop a'r Cyngor Prydeinig. Roedd gennym ddiddordeb arbennig yn y tair menter a ddatblygir gan SWEDIC a chredwn y bydd y wefan 'European Sources Online' yn ddefnyddiol iawn i fyfyrwyr a dinasyddion cyffredin. Dylid rhoi cyhoeddusrwydd eang i'r ffynonellau gwybodaeth newydd hyn.

3.14 I ategu gwaith athrawon o ddarparu addysg ddinesig, argymhellwn y dylai pum Canolfan Gwybodaeth Uniongyrchol Ewrop weithio'n agos gydag ysgolion a cholegau i ddarparu'r wybodaeth ffeithiol ddiweddaraf am yr Undeb Ewropeaidd; yn enwedig ar bolisïau a chyfarwyddebau sy'n arbennig o berthnasol i Gymru. Dylai'r Canolfannau hefyd

hwyluso trafodaethau ar faterion UE, naill ai mewn ysgolion neu ar eu safleoedd eu hunain, er mwyn rhoi cyfle i ddisgyblion ddatblygu sgiliau meddwl a chyfathrebu.
3.15 Fel y nodwyd yn ein hymateb i Bapur Gwyn y Comisiwn Ewropeaidd, credwn na ddylai codi ymwybyddiaeth o hawliau pobl fel dinasyddion yr UE fod yn gyfyngedig i'r system addysg. Dylai pob dinesydd allu cael gafael ar wybodaeth berthnasol a chredwn y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol a Chanolfannau Uniongyrchol Ewrop hwyluso'r angen hwn.

3.16 Croesawn y rhaglen o fentrau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dechrau ei chynnal bellach mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth ac ysgogi trafodaeth ar Ewrop, megis Fforwm Ewropeaidd Cymru.

3.17 Efallai y bydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol olynol yn y Trydydd Cynulliad am ystyried pa ran y gall aelodau'r Pwyllgor hwnnw ei chwarae i godi proffil materion Ewropeaidd a byd-eang mewn trafodaethau cenedlaethol a lleol ar faterion UE.

3.18 Hefyd efallai y bydd Comisiwn y Cynulliad yn y Trydydd Cynulliad am ystyried a allai ei ganolfannau gwybodaeth cyhoeddus roi deunydd priodol i bobl ifanc a'r cyhoedd sy'n ymweld â'r canolfannau ynghylch yr UE a'i strwythurau gwleidyddol, ynghyd â gwybodaeth am y Cynulliad.

3.19 Caiff Canolfannau Uniongyrchol Ewrop yng Nghymru eu hariannu tan 2009, pan gaiff rhaglen gyfan y DU ei hadolygu. Argymhellwn y dylai pwyllgor priodol y Cynulliad adolygu gweithgareddau pum Canolfan Uniongyrchol Ewrop yng Nghymru ar ôl eu blwyddyn weithredol gyntaf; i gynnwys, er enghraifft, y math o weithgareddau a gyflawnir, niferoedd ac oedran y rhai sy'n ceisio gwybodaeth, nifer y cysylltiadau a ddatblygwyd gydag ysgolion a cholegau, ac awgrymiadau ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol.

3.20 Thema reolaidd yn ein hymchwiliad oedd yr angen i bobl ifanc ddatblygu'r sgil o feddwl yn feirniadol. Rhybuddiodd CEWC Cymru rhag rhoi llwyth o ffeithiau a ffigurau am yr UE i bobl ifanc; bydd hyn yn diflasu llawer ohonynt. Yn amlwg, mae angen addysgu rhai ffeithiau sylfaenol am sut mae sefydliadau amrywiol yr UE yn cydweithio; ac yn hollbwysig, sut y gwneir penderfyniadau a chan bwy. Ond dylid annog pobl ifanc i geisio eu gwybodaeth eu hunain, o bosibl gan ddefnyddio'r ffynonellau y cyfeiriwyd atynt uchod, a dod i'w casgliadau eu hunain ar faterion sydd o ddiddordeb iddynt.

3.21 Cymeradwywn CEWC Cymru a Chanolfan Gymreig Materion Rhyngwladol am eu gwaith yn rhoi cyfle i bobl ifanc ddysgu am yr Undeb Ewropeaidd a datblygu eu sgiliau meddwl a chyfathrebu. Mae Seneddau Ieuenctid Ewrop a gynhelir yn y gogledd a'r de wedi rhoi cyfle i bobl ifanc drafod materion cyfoes sy'n bwysig iddynt. Hefyd, mae'r gweithdai yn yr ystafell ddosbarth wedi bod yn ddefnyddiol iawn ac yn llawn gwybodaeth. Argymhellwn y dylai mwy o ysgolion a cholegau gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn ac y dylid cynnal Senedd Ieuenctid Ewrop yng nghanolbarth Cymru o bryd i'w gilydd.

3.22 Rhydd y Cyngor Prydeinig, yn ogystal â bod yn aelod o banel cynghori ADCDF Llywodraeth y Cynulliad, ystod eang o raglenni hyfforddi a datblygu perthnasol i ddisgyblion ac athrawon mewn ysgolion a cholegau; gweler paragraff 2.95. Anogwn fwy o ysgolion a cholegau i gymryd rhan yn y rhaglenni hyn; yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â chyd-brosiectau neu bartneriaethau ag ysgolion a cholegau o dramor.

3.23 Mae'n hanfodol bod athrawon yn ymwybodol o ddatblygiadau ymhob agwedd ar eu proffesiwn, drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Nodwn mai nifer siomedig sydd wedi cofrestru ar gyfer rhaglen Comenius 2 yng Nghymru, ac awgrymwn y dylid annog mwy o athrawon i gyfranogi; i wella eu dealltwriaeth o faterion Ewropeaidd, fel y gallant addysgu a thrafod materion cyfoes gyda'u disgyblion yn well. Argymhellwn y dylai Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, wrth adolygu ei ganllawiau DPP i athrawon, gyfeirio'n benodol at gyfleoedd i wella eu dealltwriaeth o faterion Ewropeaidd a dinasyddiaeth fyd-eang.

3.24 Credwn y dylai pobl ifanc glywed ystod eang o safbwyntiau ar amrywiaeth eang o faterion Ewropeaidd a byd-eang. Rydym wedi gweld bod y sylw a gaiff materion Ewropeaidd yn y cyfryngau yng Nghymru yn eithaf tameidiog ar y cyfan, er ei fod yn gymharol gywir o ran ffeithiau. Mae straeon newyddion Ewropeaidd, boed hwy'n gadarnhaol neu'n negyddol, yn ddull defnyddiol o ysgogi trafodaeth yn yr ystafell ddosbarth, yn enwedig os yw'r stori newyddion o ddiddordeb lleol; er enghraifft, defnyddio cronfeydd strwythurol yr UE i gefnogi hyfforddiant yn lleol er mwyn gwella sgiliau'r gweithlu lleol. Argymhellwn y dylai uwch reolwyr ysgolion hyrwyddo llythrennedd gwleidyddol o fewn ysgolion mewn modd nad yw'n bartisan drwy wahodd sefydliadau gwirfoddol, preifat a chyhoeddus, gan gynnwys pleidiau gwleidyddol a chynrychiolwyr y cyfryngau, i ysgolion i hwyluso trafodaeth ymhlith disgyblion.

3.25 Rydym yn ddiolchgar i Weinidog y Cynulliad dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, am ymddangos gerbron y Pwyllgor ac am gynnwys adran yn ei phapur a oedd yn arbennig o berthnasol i'r ymchwiliad hwn. Cydnabyddwn y mentrau hyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac argymhellwn y dylai pwyllgor priodol y Cynulliad, yn dilyn yr etholiad nesaf, werthuso'r rhaglenni hyn; gyda'r nod o ehangu cyfranogiad pobl ifanc a hefyd rhannu arfer gorau.

3.26 Yn olaf, un o brif amcanion addysg dinasyddiaeth Ewropeaidd a byd-eang yw cynnwys pobl ifanc yn y broses ddemocrataidd mewn modd ehangach a mwy hyddysg; mewn etholiadau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol ac Ewropeaidd. Cydnabyddwn fod yr her hon yn hynod anodd ond yn ein barn ni, os gall pobl ifanc wneud problemau Ewropeaidd a byd-eang yn berthnasol i'w profiadau eu hunain, maent yn debycach o ddod yn ddinasyddion gweithgar. Croesawn y broses o graffu ar drefniadau etholiadol yng Nghymru a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a chymeradwywn argymhellion 19-30 yn ei adroddiad. Cynhwysir yr argymhellion hyn yn Adran 4. Diwygiwyd rhai i adlewyrchu'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'n hymchwiliad.

## 4. Argymhellion

1. Argymhellwn y dylai'r fframwaith diwygiedig ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh), a gynhwysir yn yr adolygiad presennol o'r cwricwlwm ysgol yng Nghymru, ymgorffori arfer gorau o elfen ‘Cymru, Ewrop a'r Byd' Bagloriaeth Cymru ac ‘Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang – Strategaeth Weithredu’.

2. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried yr enghreifftiau o arfer da mewn perthynas ag addysgu dinasyddiaeth a nodwyd yn yr adroddiad gan Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru ac adroddiad Eurydice.

3. Argymhellwn y dylid rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod pob ysgol uwchradd yn darparu Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) gan ddefnyddio athrawon sydd wedi cael hyfforddiant arbennig ac sydd ag adnoddau o'r fath.

4. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru arwain y ffordd o ran hwyluso hyfforddiant ABCh i athrawon, gan ddarparu pecynnau adnodd ar gyfer hyfforddiant o'r fath a chefnogi athrawon i ddarparu ABCh.

5. Argymhellwn y dylai Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, wrth adolygu ei ganllawiau datblygiad proffesiynol parhaus i athrawon, gyfeirio'n benodol at gyfleoedd i wella eu dealltwriaeth o faterion Ewropeaidd a dinasyddiaeth fyd-eang; er enghraifft, rhaglenni Comenius a drefnwyd gan y Cyngor Prydeinig.

6. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod enghreifftiau sy'n bodoli eisoes o arfer da mewn dinasyddiaeth ac addysg wleidyddol yn cael eu lledaenu'n briodol i bob ysgol a grŵp ieuenctid yng Nghymru.

7. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gomisiynu Estyn i werthuso'r broses o weithredu Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yn 2010, er mwyn mesur cynnydd ers ei adroddiad sylfaenol yn 2006.

8. Argymhellwn y dylai'r adolygiad o'r cwricwlwm ysgol yng Nghymru, a gynhelir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn o bryd, dalu sylw arbennig i'r angen i ddatblygu dealltwriaeth wleidyddol ymhlith pobl ifanc a'u haddysgu am rolau, polisïau a safle pleidiau gwleidyddol, yn ogystal â phrosesau gwleidyddol ar bob lefel lywodraethu.

9. Argymhellwn y dylai canllawiau i ysgolion ar addysgu llythrennedd gwleidyddol gynnwys yn benodol addysg am bleidiau gwleidyddol, gan gynnwys y rhai ar lefel Ewropeaidd, a rôl pobl ifanc yn y broses ddemocrataidd yn ogystal â chysyniadau gwleidyddol sylfaenol.

10. Argymhellwn y dylai pum Canolfan Uniongyrchol Ewrop yng Nghymru weithio'n agos gydag ysgolion a cholegau i ddarparu'r wybodaeth ffeithiol ddiweddaraf am yr Undeb Ewropeaidd; yn enwedig ar bolisïau a chyfarwyddebau sy'n arbennig o berthnasol i Gymru.

11. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried cefnogi datblygiad rhagor o Ganolfannau Uniongyrchol Ewrop yng Nghymru.

12. Argymhellwn y dylai pwyllgor priodol y Cynulliad adolygu gweithgareddau pum Canolfan Uniongyrchol Ewrop yng Nghymru yn ystod 2008. i gynnwys, er enghraifft, y math o weithgareddau a gyflawnir, niferoedd ac oedran y rhai sy'n ceisio gwybodaeth, y cysylltiadau a ddatblygwyd gydag ysgolion a cholegau, ac awgrymiadau ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol.

13. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn ymgynghoriad â'r Comisiwn Ewropeaidd efallai, gomisiynu deunyddiau addysgu o ansawdd uchel yn Gymraeg a Saesneg ac mewn cyfryngau amrywiol, i hysbysu pobl ifanc am yr Undeb Ewropeaidd ac i ysgogi trafodaeth.

14. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gydgysylltu'r canllawiau y mae'n eu rhoi i ysgolion ar weithredu cynghorau ysgol a gweithgareddau dinasyddiaeth, er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrannu'n briodol at ddealltwriaeth wleidyddol disgyblion a bod cysylltiadau priodol yn cael eu gwneud rhwng gweithgareddau cynghorau ysgol a mentrau dinasyddiaeth eraill, megis gwahodd sefydliadau gwirfoddol, preifat a chyhoeddus, gan gynnwys pleidiau gwleidyddol a chynrychiolwyr y cyfryngau, i'r ysgol i hwyluso trafodaeth ymhlith disgyblion.

15. Argymhellwn y dylai canllawiau a hyfforddiant ganolbwyntio ar sicrhau bod pob disgybl, waeth beth fo'i gefndir, yn cael yr un anogaeth i gymryd rhan mewn cynghorau ysgol a mentrau dinasyddiaeth eraill ac y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gomisiynu Estyn i fonitro cynrychiolaeth a chyfranogiad o safbwynt cydraddoldeb.

16. Argymhellwn y dylai'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol olynol yn y Trydydd Cynulliad ystyried pa ran y gall aelodau'r Pwyllgor hwnnw ei chwarae i godi proffil materion Ewropeaidd a byd-eang mewn trafodaethau cenedlaethol a lleol ar faterion yr UE.

17. Argymhellwn y dylai Comisiwn y Cynulliad ac awdurdodau lleol ddatblygu mentrau sy'n rhoi cyfleoedd i bobl ifanc o gefndiroedd gwahanol gysgodi gwleidyddion etholedig o'r Cynulliad a Llywodraeth Leol, a Senedd Ewrop a chymryd rhan mewn trafodaethau â gwleidyddion. Dylai mentrau o'r fath ystyried arfer da sy'n bodoli eisoes yng Nghymru a thu hwnt.

18. Argymhellwn, yn y Trydydd Cynulliad, y dylai Comisiwn y Cynulliad ystyried a allai ei ganolfannau gwybodaeth cyhoeddus roi deunydd priodol i bobl ifanc a dinasyddion eraill ynghylch yr UE a'i strwythurau gwleidyddol, ynghyd â gwybodaeth am y Cynulliad.

19. Argymhellwn y dylai'r Comisiwn Ewropeaidd ystyried rhoi mwy o arian i'w swyddfeydd rhanbarthol i gyfieithu ei ddeunydd gwybodaeth i ieithoedd lleol swyddogol, megis Cymraeg, hyd yn oed os nad ydynt yn ieithoedd UE swyddogol.

20. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gefnogi Cynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru i ddarparu mwy o gyhoeddiadau am yr UE yn Gymraeg ac mewn ieithoedd eraill.

21. Argymhellwn y dylai'r Grŵp Cynllunio Etholiadau ystyried dulliau rhanbarthol a chenedlaethol o hyrwyddo'r broses bleidleisio ymhlith pobl ifanc.

22. Argymhellwn y dylai'r Grŵp Cynllunio Etholiadau ystyried cyflwyno mentrau a dargedir i annog grwpiau o bobl ifanc sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol ac yn economaidd i bleidleisio.

**Atodiad 1**

**Rhestr o Bapurau'r Pwyllgor**

| **Dyddiad** | **Enw'r Papur/Sefydliad** | **Rhif Cyfeirnod y Papur** | **Cyfeirnod Paragraff y Trawsgrifiad** |
|---|---|---|---|
| 10 Mai 2006 | Citizenship Education on the European Union in Wales | EUR(2) 04-06 (p.2) | 81 - 216 |
| 10 Mai 2006 | Engaging Europe's Young Citizens | EUR(2) 04-06 (p.3) | 81 – 216 |
| 22 Mehefin 2006 | Ymateb y Pwyllgor i'r Papur Gwyn ar Bolisi Cyfathrebu Ewropeaidd | EUR(2) 05-06 (p.2) | 71 – 120 |
| 22 Mehefin 2006 | Yr ymdriniaeth o faterion yn ymwneud a'r UE gan y cyfryngau yng Nghymru | EUR(2) 05-06 (p.3) | 71 – 120 |
| 22 Mehefin 2006 | WCVA Promoting awareness and information on the European Union | EUR(2) 05-06 (p.4) | 121 – 140 |
| 22 Mehefin 2006 | European Centre for Training and Regional Co-operation's plan for the implementation of Europe Direct 2006 | EUR(2) 05-06 (p.5) | 140 – 194 |
| 22 Mehefin 2006 | Cylch Gorchwyl | EUR(2) 05-06 (p.6) | 22 – 65 |
| 12 Gorffennaf 2006 | EU education in other Member States of the European Union | EUR(2) 06-06 (p.2) | 14 – 116 |
| 12 Gorffennaf 2006 | Education, lifelong learning issues in the European context | EUR(2) 06-06 (p.4) | 166 - 214 |
| 12 Gorffennaf 2006 | Prosiect Craffu'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar Drefniadau Etholiadol | EUR(2) 06-06 (p.5) | Papur i'w nodi |
| 27 Medi 2006 | Canolfan Gwybodaeth Uniongyrchol Ewrop De Cymru | EUR(2) 07-06 (p.3) | 165 - 203 |
| 27 Medi 2006 | Y Cyngor Prydeinig | EUR(2) 07-06 (p.4) | 203 - 253 |
| 25 Hydref 2006 | Oxfam Cymru | EUR(2) 08-06 (p.3) | 127 - 203 |

**Atodiad 2**

**Rhestr o'r Sefydliadau yr Ymgynghorwyd â Hwy**

| | |
|---|---|
| Mynediad i Blant a Phobl Ifanc Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig ag Anableddau (ABCD) | Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd |
| Cynghrair Henoed Cymru | Cyngor Gofal Cymru |
| Grŵp Iechyd Meddwl Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan | Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru |
| Cymdeithas Swahili Cymru Gyfan | Cymdeithas Genedlaethol y Cynhalwyr yng Nghymru |
| Area 41 | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Grŵp Menywod Asiaidd | Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion |
| Cymdeithas Gweithwyr Proffesiynol Moslemaidd | Prosiect Newid Agweddau |
| AWEMA Ystafell 1 | Plant a Phobl Ifanc |
| Cymdeithas Les Fangladeshaidd (BWA) | Fframwaith Plant a Phobl Ifanc |
| Cymdeithas Menywod Bangladeshaidd | Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc |
| Grŵp Merched Bangladeshaidd | Comisiynydd Plant Cymru |
| Black Association of Women Step Out (BAWSO) | Pwyllgor Gwasanaeth Cymunedol Tsieinëeg |
| Rhwydwaith Amgylchedd Pobl Dduon | Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (Cymru) |
| Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Pobl Dduon | Canolfan Addysg Barhaus |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| CBS Pen-y-bont ar Ogwr | Croesffyrdd Cymru |
| Gwasanaeth Ieuenctid Sir Fynwy | Cultural Concerns |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | Cyngor Sir Ddinbych |

| | |
|---|---|
| Canolfan Ieuenctid Penrallt | Comisiwn Hawliau Anabledd |
| CS Caerdydd | Anabledd Cymru |
| Grŵp Safleoedd Sipsiwn Caerdydd | Alltudion ar Waith |
| Canolfan Addysg Glanyfferi | Cymdeithas Fietnamaidd De Cymru |
| Cyngor Sir y Fflint | Cymdeithas Cymuned Swdanaidd |
| Cyngor Gwynedd | Cyngor Cydraddoldeb Hiliol Bae Abertawe |
| Clymblaid Diwygio Cyfraith Sipsiwn a Theithwyr | Fforwm Ieuenctid Cyngor Sir Abertawe |
| Gwasanaethau Plant Integredig | Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (Cymru) |
| Mudiad Teithwyr Gwyddelig Prydain | Y Cyngor Sipsiwn |
| Cyngor Sir Ynys Môn | Cyngor Cydraddoldeb Hiliol De-ddwyrain Cymru |
| Cyd-bwyllgor Lleiafrifoedd Ethnig Cymru | The Vic |
| Maes y Fynnon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen |
| Rhwydwaith Menywod o Leiafrifoedd Ethnig (MEWN Cymru) | Traveller Times |
| Cyngor Sir Fynwy | Canolfan Ieuenctid Treuddyn |
| Cymdeithas Genedlaethol Menywod sy'n Sipsiwn | Tros Gynnal |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot | Bro Morgannwg, Prosiect Ieuenctid Penarth |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd | Cyngor Cydraddoldeb Hiliol y Cymoedd |
| Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Cymdeithas Bacistanaidd Cyngor Asiaidd Cymreig Casnewydd a Gwent | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro | TUC Cymru |

| | |
|---|---|
| Cyngor Sir Powys | Cyngor Defnyddwyr Cymru |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Powys | Cymdeithas Awdurdodau Lleol Cymru ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches |
| Race Equality First | Cyngor Ffoaduriaid Cymru |
| Canolfan Gynghori Somali | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

**Atodiad 3**

**Dadansoddiad canrannol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad**

1. Beth yw eich oed?

| O dan 10 | 11-13 | 14-15 | 16-17 | 18-25 |
|---|---|---|---|---|
| 4% | 37% | 33% | 14% | 12% |

2. Pa mor bwysig yw'r hyn sy'n digwydd yn yr Undeb Ewropeaidd i chi?

| Pwysig iawn | Eithaf pwysig | Ddim yn bwysig o gwbl |
|---|---|---|
| 16% | 55% | 29% |

3. A ydych yn credu bod y penderfyniadau a wneir yn Ewrop yn cael unrhyw effaith ar bobl sy'n byw yng Nghymru?

| Ydw, effaith fawr | Ydw, ond dim ond ychydig | Dim effaith o gwbl | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| 21% | 59% | 6% | 14% |

4. A ydych yn credu bod penderfyniadau a wneir yn Ewrop yn effeithio arnoch chi yn bersonol?

| Ydw, effaith fawr | Ydw, ond dim ond ychydig | Dim effaith o gwbl | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| 20% | 33% | 22% | 25% |

5. Sut ydych yn dod i wybod am yr hyn sy'n digwydd yn yr Undeb Ewropeaidd?

| Ysgol | Teledu | Y Rhyngrwyd | Arall | Nid wyf yn dod i wybod | Mwy nag un ffordd |
|---|---|---|---|---|---|
| 10% | 36% | 10% | 8% | 16% | 20% |

**Atodiad 4**

## Ymateb i'r Papur Gwyn ar Bolisi Cyfathrebu Ewropeaidd

Ystyriodd Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol y Cynulliad Cenedlaethol Bapur Gwyn y Comisiwn Ewropeaidd ar Bolisi Cyfathrebu Ewropeaidd yn ei gyfarfodydd ar 22 Mehefin a 10 Mai 2006. Hyderwn y gwnewch ystyried y sylwadau hyn wrth ddatblygu'r Polisi Cyfathrebu Ewropeaidd.

### Cyrraedd y dinesydd

1. Mae'r Pwyllgor yn croesawu Papur Gwyn y Comisiwn fel ffordd o ddechrau trafodaeth ar sut y gellir cyfleu'r UE yn well i ddinasyddion. Mae hyrwyddo gwell ymrwymiad gan bobl yn y broses wleidyddol yn fater i sefydliadau'r UE, ond mae hefyd yn her sy'n wynebu pob sefydliad gwleidyddol, p'un a yw'n sefydliad rhanbarthol, yn sefydliad cenedlaethol neu'n sefydliad Ewropeaidd.

2. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu ac yn cefnogi strategaeth i wella ymwybyddiaeth ledled Cymru o beth yw ystyr bod yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd, o ran effaith bosibl yr UE ar fywydau pob dydd pobl yn ogystal â sut y gallant gymryd rhan yn wleidyddol - naill ai'n uniongyrchol neu drwy sefydliadau rhanbarthol neu genedlaethol. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod llawer o ffyrdd posibl o wneud hyn.

3. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn cytuno â dadansoddiad y Comisiwn, sef bod y system addysg genedlaethol yn chwarae rhan bwysig mewn perthynas â dealltwriaeth pobl o wleidyddiaeth a'u hawliau fel dinasyddion, a chred mai'r ffordd fwyaf effeithiol o newid canfyddiadau a gwella ymwybyddiaeth cenedlaethau'r dyfodol yw trwy addysg i ddinasyddion mewn ysgolion.

4. O ganlyniad i'r trafodaethau a gynhaliwyd yn sgîl y Papur Gwyn ar Gyfathrebu a Chynllun D y Comisiwn, mae'r Pwyllgor yn bwriadu adolygu sut y caiff addysg i ddinasyddion ei haddysgu mewn ysgolion cynradd ac uwchradd mewn perthynas â'r UE a sut y mae'r cwricwlwm yn ymdrin ag ymwybyddiaeth gyffredinol o'r UE a'i Haelod-wladwriaethau.

5. Cytuna'r Pwyllgor hefyd na ddylid cyfyngu'r broses o gynyddu ymwybyddiaeth o hawliau pobl fel dinasyddion yr UE i'r system addysg yn unig, a dylid ymdrin â hyn yn ehangach. Dylai fod yn ymdrech barhaus ar ran sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd a'u cynrychiolwyr yn yr Aelod-wladwriaethau, ac ni ddylai ganolbwyntio ar fentrau neu ymgyrchoedd unigol, er enghraifft, sy'n canolbwyntio ar yr etholiadau Ewropeaidd. Noda'r Pwyllgor y gallai Canolfannau Uniongyrchol newydd Ewrop a sefydlir yng Nghymru fod yn gam i'r cyfeiriad cywir yn hyn o beth.

6. Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn rhannu arfer da gyda rhanbarthau ac Aelod-wladwriaethau eraill, a byddai'n croesawu unrhyw gymorth gan y Comisiwn Ewropeaidd i hwyluso'r arfer hwn mewn ffordd strwythuredig.

7. Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at barhau â'r drafodaeth hon gyda'r Comisiwn Ewropeaidd a byddai'n fwy na pharod i rannu canlyniadau'r adolygiad gyda'r Comisiwn

Ewropeaidd.

**Gweithio mewn partneriaeth**

8. Gall cynulliadau a seneddau rhanbarthol megis Cynulliad Cenedlaethol Cymru chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gysylltu dinasyddion â'r UE. Mae pobl yng Nghymru yn ymgysylltu'n llawer haws â'r Cynulliad fel sefydliad, nag â'r Comisiwn Ewropeaidd neu'r Senedd. Er ei fod yn gymharol ifanc, caiff y Cynulliad gefnogaeth gynyddol.

9. Mae trafodion y Cynulliad hefyd yn llawer mwy hygyrch ac yn haws i randdeiliaid yng Nghymru a'r cyfryngau ymgysylltu â hwy na Sefydliadau Brwsel.

10. Drwy'r gwaith a wneir gan y Pwyllgorau i graffu ar weithredoedd Llywodraeth y Cynulliad o ran materion yr UE, a thrafod materion Ewropeaidd allweddol sy'n bwysig i Gymru o fewn Pwyllgorau, mae'r Cynulliad mewn sefyllfa dda i sicrhau mwy o dryloywder a dealltwriaeth o brif faterion cyfoes yr UE ac i roi polisïau Ewropeaidd mewn cyd-destun lleol.

11. Gwerthfawrogwn gyfranogiad Cynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol. Serch hynny, byddai'r Pwyllgor yn croesawu ymgysylltiad mwy uniongyrchol â'r Comisiwn Ewropeaidd yn y trafodaethau a gynhelir yn y pwyllgorau pwnc ar gynigion polisi neu ddeddfwriaethol Ewropeaidd penodol e.e. cael y swyddog cyfrifol yn y Comisiwn i roi cyflwyniadau i bwyllgorau pan drafodir materion yr UE.

12. Mae'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol hefyd yn edrych ar ffyrdd o gynnwys ASEau Cymru'n fwy uniongyrchol yn nhrafodaethau'r Pwyllgor fel modd i wella'r broses o gyfathrebu â Sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd.

**Cyfathrebu â sefydliadau'r UE drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg**

13. Mae Papur Gwyn y Comisiwn Ewropeaidd yn nodi "all citizens should have access in their own language to information about matters of public concern".

14. Tra'n cydnabod nad yw'r Gymraeg yn un o ieithoedd swyddogol yr Undeb Ewropeaidd, mae'r Pwyllgor yn croesawu penderfyniad Cyngor y Gweinidogion ar 13 Mehefin 2005 sy'n caniatáu i ddinasyddion allu defnyddio eu hiaith eu hunain gyda sefydliadau'r UE, lle mae gan yr ieithoedd hyn statws swyddogol. Hoffai'r Pwyllgor atgoffa'r Comisiwn Ewropeaidd fod yr iaith Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru ac y caiff ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg mewn bywyd cyhoeddus yng Nghymru.

15. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymdrechion Llywodraeth Cynulliad Cymru i hwyluso'r posibilrwydd o ddefnyddio'r iaith Gymraeg mewn perthynas â sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd ac mae'n annog y sefydliadau hyn i gydweithio er mwyn i hyn ddigwydd a noda'n arbennig y potensial y gallai hyn ei gynnig i Gynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru o ran cyflawni ei gweithgareddau a chyhoeddiadau dwyieithog.

**Sandy Mewies AC**
**Cadeirydd, Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol**

**Atodiad 5**

**Rhestr Dermau**

| | |
|---|---|
| Fframwaith Sgiliau | Fframwaith dosbarthu sy'n defnyddio disgrifiadau syml fel bod modd mesur a meincnodi sgiliau. |
| Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd | Mae'r cronfeydd strwythurol yn helpu ardaloedd cymharol dlawd Ewrop i wella ffyniant economaidd ac amodau cymdeithasol. |
| Map o Gymorth Rhanbarthol | Mae hwn yn nodi'r rhanbarthau o fewn Aelod-wladwriaeth sy'n gymwys i dderbyn cymorth buddsoddi rhanbarthol ar gyfer mentrau mawr ac yn pennu uchafswm y cymorth y gellir ei roi. |
| Agenda Lisbon | Strategaeth yr UE i hyrwyddo'r gwaith o greu swyddi a ffyniant. |
| Cynllun 'D' | Cynllun y Comisiwn Ewropeaidd i hyrwyddo trafodaeth, deialog a dadl ar ddyfodol yr Undeb Ewropeaidd. |
| Pwyllgor y Rhanbarthau | Un o gyrff ymgynghorol yr Undeb Ewropeaidd sy'n cynrychioli gweinyddiaethau rhanbarthol. Mae'n trafod deddfwriaeth arfaethedig yr UE ac yna'n cyhoeddi ei farn. |
| Y Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol | Y blaenoriaethau bras ar gyfer Rhagnlenni Cronfeydd Strwythurol y DU yn y dyfodol. |
| Y Comisiwn Ewropeaidd | Corff Gweithredol yr Undeb Ewropeaidd sy'n cynnig deddfwriaeth yr UE. |
| Senedd Ewrop | Corff Deddfu'r Undeb Ewropeaidd sy'n trafod ac yn gwneud deddfwriaeth yr UE. |
| Llywodraeth Cynulliad Cymru | Corff Gweithredol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. |
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | Corff Deddfu Cymru sydd hefyd yn craffu ar Lywodraeth Cynulliad Cymru. |
| Estyn | Swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. |
| Cyfanfyd | Sefydliad aelodaeth cenedlaethol sy'n hyrwyddo addysg dinasyddiaeth fyd-eang yng Nghymru. |